# Cynlluniau thematig a syniadau am wersi ar sail 'Geiriau Diflanedig'.



© Jackie Morris a Mererid Hopwood: Geiriau Diflanedig (Macfarlane, Morris a Hopwood, 2017; Graffeg).

## Pecyn Cymorth Addysgu i gefnogi cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru

gan Fyfyrwyr sy'n astudio gradd y Blynyddoedd Cynnar ym Mhrifysgol De Cymru; golygwyd gan Pavla Boulton.

# Cydnabyddiaeth:

Crëwyd y pecyn cymorth addysgu hwn oherwydd y ffordd hyfryd y cyflwynodd Rob Macfarlane a Jackie Morris (2017) broblem, sef bod geiriau pwysig yn ein hiaith am ein byd naturiol yn diflannu o fywydau a meddyliau ein plant, oherwydd eu tynnu allan o eiriadur Oxford Junior Dictionary. Derbyniodd myfyrwyr Blwyddyn 2 Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar ym Mhrifysgol De Cymru (PDC) y prosiect hwn, a phenderfynu bod angen iddynt gefnogi'r 'llyfr swynion' hyfryd hwn drwy greu pecyn cymorth o syniadau addysgu a allai gefnogi ymarferwyr y blynyddoedd cynnar i helpu i hybu iaith wyllt plant. Mae eu creadigrwydd a'u syniadau amrywiol wedi cyfrannu'n sylweddol at yr adnodd hwn. Bu cymorth Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent yn amhrisiadwy, gan gefnogi'r myfyrwyr yn eu dysgu ac wrth weithio mewn partneriaeth â PDC yn y prosiect hwn.

Diolch yn benodol i'r canlynol:

Myfyrwyr Blwyddyn 2 Addysg y Blynyddoedd Cynnar: Abigail Williams, Chloe Offers, Danielle Roberts, Ellie Rees, Elizabeth Jackson, Emma Thomas, Gaby Mills-Foley, Jemma Hughes, Megan Thomas, Morgan Dalton , Niamh Crane, Olivia Natale, Rebeca Telchader, Tammy Jones, Vicky Miles.

Kathy Barclay a Petra Mitchard o Gors Magwyr, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru.

Ac wrth gwrs, Robert Macfarlane, Jackie Morris a Mererid Hopwood am ysbrydoliaeth 'Geiriau Diflanedig'[1] ac am gyflwyno neges pwysigrwydd 'byd natur' mewn modd mor brydferth.

---

[1] Macfarlane,R, Morris, J, a Hopwood M. (2019) *Geiriau Diflanedig*. Graffeg. Mae delweddau *Geiriau Diflanedig* yn hawlfraint i Jackie Morris, 2017. Rhoddwyd caniatâd i ddefnyddio'r delweddau yn yr adnodd hwn.


Crëwyd Pecyn Cymorth Addysgu *Geiriau Diflanedig* gan fyfyrwyr Prifysgol De Cymru, Casnewydd, ac fe'i golygwyd gan Pavla Boulton. Cefnogwyd y prosiect hwn gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim i ymarferwyr yn y DU.

# Tudalen Gynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir i'r Pecyn Cymorth | tudalennau 4 –5 |
| Gwybodaeth am y cwricwlwm | tudalennau 6-7 |
| Deunydd ysbrydoledig a ddefnyddiwyd gan y myfyrwyr yn ystod eu gwaith ymchwil ac wrth ddatblygu eu syniadau | tudalen 9 |
| Addasu ardaloedd yn yr awyr agored | tudalen 10 |
| Cynllunio Thematig | tudalen 11 |
| Rhedynen | tudalennau 12-15 |
| Helygen | tudalennau 16-20 |
| Dyfrgi | tudalennau 21-33 |
| Pioden | tudalennau 34-40 |
| Mesen | tudalennau 41-46 |
| Dant y llew | tudalennau 47-55 |
| Concyr | tudalennau 56- 59 |
| Clychau'r Gog | tudalennau 60-66 |
| Gwiber | tudalennau 67-71 |
| Glas y Dorlan | tudalennau 72-76 |
| Defnyddio technoleg ddigidol yn yr awyr agored | tudalennau 77-78 |

# Cefndir i'r Pecyn Cymorth

Mae'r myfyrwyr sy'n astudio'r BA (Anrhydedd) mewn Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar ym Mhrifysgol De Cymru yn astudio modiwl o'r enw 'Plant yn Dysgu drwy Dirweddau' sy'n edrych yn fanwl ar y theori a'r ymarfer sy'n sail i ddysgu plant mewn amgylchedd awyr agored. Fel ymarferwyr dan hyfforddiant, maent yn gwylio ac yn teimlo buddion a heriau darpariaeth awyr agored yn ystod eu lleoliadau, a buont yn gallu ystyried canlyniadau cadarnhaol yn ogystal ag anawsterau addysgeg awyr agored wrth lunio'r pecyn cymorth hwn o syniadau, y maent wedi'u profi yn eu hymarfer eu hunain.



Bu'r myfyrwyr yn gwneud y gwaith hwn hefyd yn astudio'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Dysgu yn yr Awyr Agored (Agored Cymru) ac mae hyn wedi'u galluogi i ystyried cynllunio gweithgareddau, ar sail cynlluniau thematig a syniadau sy'n ymdrin â'r Meysydd Dysgu yng Nghwricwlwm y Cyfnod Sylfaen (LlC, 2015). Mae'r cynllunio thematig hefyd wedi annog y myfyrwyr i ystyried pontio'r syniadau hyn er mwyn cefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru sydd ar y gweill ar hyn o bryd, oherwydd bydd hyn yn caniatáu i syniadau gael eu cymhwyso'n hyblyg. Mae'r Cwricwlwm i Gymru (Drafft LlC 2019) yn dod i'r amlwg ac mae'r strwythur a'r ymagwedd yn addas i'r cynllunio thematig a ddefnyddir yn y pecyn cymorth hwn, gan gefnogi ymarferwyr felly drwy'r cyfnod pontio.

## Ysbrydoliaeth i ddatblygu'r pecyn cymorth

Drwy astudio'r cwrs, bu'r myfyrwyr hefyd yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent (YBGG) ac yn ffodus i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yng Ngwarchodfa Natur Cors Magwyr. Yno, mae 'bywyd gwyllt go iawn' a byd natur wrth law, yn wahanol i'n prif ardal dysgu awyr agored yng nghampws Dinas Casnewydd, sef maes parcio / ardal goncrit ag ychydig o goed. Serch hynny, gall gynnig cyfleoedd dysgu o hyd a gellir ei thrawsnewid i weddu i ba thema bynnag sydd dan sylw yn ein gwaith. Fodd bynnag, yng Nghors Magwyr, daeth y dysgu'n wirioneddol fyw ac 'ailgysylltodd' llawer o'r myfyrwyr â byd natur.



Drwy weithio gyda YBGG datblygwyd partneriaeth dda, a darganfuwyd y bu YBGG yn gallu ariannu copi o lyfr 'Geiriau Diflanedig' gan Robert Macfarlane, Jackie Morris a Mererid Hopwood (2019) i bob ysgol gynradd yng Ngwent a Sir Fynwy. Sbardunodd hyn lawer o feddwl, a bu'r myfyrwyr yn meddwl tybed sut oedd y llyfr anhygoel hwn (sy'n ffrwyth penderfyniad sy'n peri poen meddwl, sef tynnu geiriau mor brydferth allan o eiriadur y plant) yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion. Gofynnodd y myfyrwyr 'a oeddwn i'n siŵr y byddai ymarferwyr blynyddoedd cynnar i gyd yn teimlo'n hyderus i fynd allan a defnyddio'r llyfr gyda'r plant?'

O hynny ymlaen roedd yn amlwg bod y myfyrwyr wedi'u cymell i ddatblygu syniadau a gweithgareddau y gallai ymarferwyr eu defnyddio ochr yn ochr â'r llyfr ysbrydoledig iawn hwn, fel y byddai 'Geiriau Diflanedig' yn destun sgwrs, tynnu llun, gludwaith ac wrth gwrs dealltwriaeth y plant. Roeddent am i blant gael eu swyno gan y rhywogaethau byw hyn sy'n rhannu ein tirweddau, fel y gallent ddysgu bod 'stiwardiaeth' y blaned yn gyfrifoldeb i bawb. Cychwynasant ar siwrnai o feddwl creadigol, gan ymchwilio i ffeithiau na'u gwyddent erioed eu hunain cyn mynd â'r syniadau gyda nhw i'w hymarfer eu hunain i roi cynnig arnynt.







## Y Pecyn Cymorth

Gwaith myfyrwyr Blwyddyn 2 Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn PDC yn 2018--19 yw'r holl syniadau yn y pecyn cymorth. Fformatiwyd y pecyn cymorth mewn ffordd sy'n cynnig rhyw strwythur i'r cynllun o ran y 'geiriau diflanedig' a ddewiswyd. Dewiswyd deg o'r geiriau diflanedig i'w defnyddio yn yr adnodd hwn, a rhai ohonynt wedi'u dewis gan y plant yr oedd y myfyrwyr yn eu haddysgu yn ystod eu lleoliadau mewn safleoedd Blynyddoedd Cynnar yn Ne Cymru.

Mae gan bob un Gair Diflanedig gynllun thematig ac un neu ragor o syniadau cynllun gwers, sydd wedi'u cysylltu â chwricwlwm Cyfnod Sylfaen Cymru (LlC,2015). Fodd bynnag, defnyddiodd rhai o'r myfyrwyr wahanol ddulliau i arddangos ac egluro eu syniadau a'u haddysgeg. Felly, er mwyn cynnal gwahanol ddulliau unigol, cadwyd amrywiaeth yn y cynnwys, a gobeithiaf fod hyn yn adlewyrchu unigoliaeth dull y myfyrwyr, oherwydd hyn, yn fy marn i, sy'n gwneud pob ymarferwr yn 'feistr ar ei grefft'.

# Y Cwricwlwm

Ym mis Ebrill 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru'r Cwricwlwm drafft i Gymru (CiG) 2022, yn cynnwys y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh).

- **Celfyddydau Mynegiannol**
- **Dyniaethau**
- **Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
- **Iechyd a Lles**
- **Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**
- **Mathemateg a Rhifedd.**

Datblygwyd y pecyn cymorth hwn gan ddefnyddio Meysydd Dysgu Cyfnod Sylfaen Cymru, am mai hwn yw'r cwricwlwm ar hyn o bryd i'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru. Ond mae'r dulliau i arddangos y syniadau addysgu wedi'u cynllunio'n 'thematig', gan gynnig dull llawer mwy cyfannol o gyflenwi'r cwricwlwm.

Mae hyn yn cydberthyn i'r CiG newydd sy'n cynnwys y chwech gwahanol MDPh a gynlluniwyd i helpu dysgwyr i sylweddoli pedwar diben y cwricwlwm, gan gwmpasu'r meysydd, pynciau a disgyblaethau cyfredol. Cynlluniwyd y MDPh yn hytrach i weithredu gyda'i gilydd yn rhan o gwricwlwm cyfannol ac ni ddylid eu hystyried yn seilos ar wahân. Gellir felly tynnu ar ddysgu ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad, felly mae angen i'r cynllunio adlewyrchu hyn yn ymarferol. Mae cynllun yr addysgu thematig yn y pecyn cymorth hwn yn adlewyrchu'r cysyniad hwn, gan ddefnyddio'r 'geiriau diflanedig' yn edafedd sydd wedi'u gweu o fewn addysgu'r MDPh, gan ddod â hwy ynghyd mewn modd mwy cyfannol.

Mae hefyd yn cefnogi pedwar diben y cwricwlwm. Mae 'cwricwlwm' yn cynnwys yr HOLL brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu wedi'u cynllunio ar drywydd y pedwar diben, sef datblygu plant a phobl ifanc:

- yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- yn gyfranwyr creadigol, mentrus, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- yn ddinasyddion moesegol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- yn unigolion iachus, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau bodlon yn aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Gall addysgeg dysgu awyr agored gefnogi a datblygu plant i gyflawni'r pedwar diben hyn mewn dull amlfodd, gweithgar, amlsynhwyraidd a chyfannol ac mae'r syniadau sydd yn y pecyn cymorth hwn yn ceisio ysbrydoli ymarferwyr i wneud hynny'n union.

Enghraifft o MDPh newydd: Gwyddoniaeth a Thechnoleg a fyddai'n berthnasol ac yn drosglwyddadwy i syniadau yn y Pecyn Cymorth hwn:

**Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig[2] ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg ......**

- **Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn o bethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.**
- **Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn helpu i hybu ein dealltwriaeth am y byd naturiol ac yn helpu cymdeithas i wneud cynnydd.**

**Amrywiaeth o Wybodaeth, Sgiliau a Phrofiad (GSPh) [3] o gamau cynnydd 1,2,3 :**

- **Ymholi**
- **Angen y dysgwyr i gael profiadau**
- **Dysgu amlsynhwyraidd trwy brofiad**
- **Amgylchedd dysgu cyfoethog dan do ac yn yr awyr agored**
- **Defnyddio amrywiaeth o offer i arsylwi ac archwilio, e.e. chwyddwydrau a chamerâu**
- **Gweithio'n ddiogel a bod yn ymwybodol o risgiau**
- **Defnyddio amrywiaeth o gyfarpar gwyddonol priodol i arsylwi, mesur a chofnodi**
- **Defnyddio technolegau, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i arsylwi amrywiaeth o ffenomena**
- **Gwahanol fathau o ymholi, gan gynnwys dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, profi teg, chwilio am batrymau, dosbarthu ac adnabod, archwilio, gwneud pethau ac ymchwilio i fodelau**

**Egwyddorion cynnydd (Dysgu) a gyflëir drwy gyfres o ganlyniadau Cyflawniad[4]:**

- **Rwy'n gallu adnabod pethau byw yn eu cynefinoedd naturiol.**
- **Rwy'n gallu adnabod a chymharu rhai nodweddion ar bethau byw a thrafod nodweddion tebyg a gwahaniaethau.**
- **Rwy'n gallu cymharu a gwrthgyferbynnu sut mae pethau byw'n datblygu ac yn cael epil.**
- **Rwy'n gallu archwilio sut mae gwahanol gynefinoedd yn darparu adnoddau i bethau byw oroesi.**

---

[2] Mae datganiadau o'r Hyn Sy'n Bwysig (HSB) yn cyfleu cysyniadau allweddol sylfaenol sy'n mynegi'r hyn sydd bwysicaf yn y MDPh hwnnw. Maent hefyd yn tynnu ar MDPh cydrannol lle bo'n berthnasol.

[3] GSPh = Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad. Mae'r rhain yn allweddol i gyflawni'r HSB yn y MDPh.

[4] Bwriedir i gynnydd fod yn gontinwwm o ddysgu ar gyfer pob MDPh o 3-16 oed. Mae 5 cam cynnydd ar y continwwm 5,8,11,14,16 oed. Efallai bydd cyflymder y cynnydd ar hyd y continwwm yn gwahaniaethu. Cyflëir camau cynnydd drwy ganlyniadau cyflawniad (Rwy'n gallu...) ar gyfer pob HSB. Nid meini prawf ffit gorau mohonynt ond mae angen eu defnyddio i greu darlun o gynnydd dysgwr o ran gwybodaeth, sgiliau a chymhwysedd ar draws y MDPh.



**Pwysigrwydd Dysgu yn yr Awyr Agored**
Mae'r awyr agored yn amgylchedd delfrydol ar gyfer dysgu trwy brofiadau, am ei fod yn cynnig cyfleoedd unigryw i fod yn greadigol, i symud o gwmpas, i fod yn swnllyd ac i gymryd risgiau.

Mae'r awyr agored yn llawn o sbardunau arbennig fel y tywydd, synau, arogleuon a gweadau sy'n gallu cyfoethogi a gwella amgylchedd dysgu'r plentyn. (LlCC 2009, t.2)

# Cyfeiriadau, sylwadau a dyfyniadau a ddefnyddiwyd gan y myfyrwyr wrth gyflwyno a datblygu'r Pecyn Cymorth hwn o syniadau

Credwn fod plant yn elwa mewn nifer o ffyrdd ar ddysgu ym myd natur ac am fyd natur. Mae gwylio plant sydd wedi ymgolli'n llwyr yn eu dysgu ac sy'n datblygu sgiliau mewn modd cyfannol yn brofiad gwerth chweil i ymarferwr.

Mae athrawon sy'n deall sut mae annog a chefnogi ac estyn gweithgareddau chwarae awyr agored yn fwy tebygol o gyfoethogi'r profiadau hyn yn sylweddol (Renick, 2009, t.83).

"Bydd treulio amser yn yr awyr agored yn gwella pob agwedd ar ddatblygiad plant: cymdeithasol, corfforol, creadigol, diwylliannol a phersonol. Bydd plant sydd wedi datblygu'r sgiliau hyn yn dda yn gallu dysgu a chofio'r hyn a ddysgwyd yn well." (Cymru, APADGOS, 2009, t. 2)

Canfuwyd bod dysgu mewn amgylchedd awyr agored yn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ... a datblygiadau o ran gwybodaeth a dealltwriaeth fel petaent yn tarddu o amrywiaeth o feysydd (Dillion et al, 2005, t. 24).



Yn y blynyddoedd cynnar, yn aml gall fod diffyg nod neu ganlyniad addysgol yn perthyn i ddysgu yn yr awyr agored. Yn ôl Bilton a Waters (2016), roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr y blynyddoedd cynnar yng Nghymru a Lloegr yn crybwyll datblygiad corfforol yn ddiben mwyaf cyffredin ar gyfer dysgu awyr agored, wedi'i ddilyn yn agos gan ddatblygiad personol a chymdeithasol. Gellir ymdrin â phob maes dysgu yn yr awyr agored ac arsylwi yw'r offeryn allweddol sy'n galluogi ymarferwyr i wneud hyn.

Mae Holland (2009) yn cydnabod bod llawer o fannau gwyllt bellach yn eiddo preifat ac mai prin y bydd plant yn cael at fyd natur, ac felly ein bod ni'r oedolion yn gyfrifol am eu haddasu a'u hailgysylltu â byd natur. Fel yr awgrymwyd gan Montessori, gall gweithgareddau awyr agored pwrpasol ddechrau datblygu dealltwriaeth wyddonol o fyd natur a gall hefyd annog plant i ddirnad eu cyfrifoldebau moesol i ofalu am y blaned (Lewis a Poole, 2018; Tovey, 2007).

Mae gwarchod byd natur yn y dyfodol yn dibynnu ar ymlyniad plant a phobl ifanc wrth fyd natur (Louv, 2005, t.156).

**Lle Chwarae Traddodiadol**
<u>Waliau a Ffensys</u>

- Ardal gyfyngedig
- Bachau a phwlïau i hongian pethau, fel basgedi i storio adnoddau naturiol ac adnoddau gwneud - Mes, Tybiau, Chwisgiau

<u>Ar y ddaear/Lle</u>

- Cynhwysol
- Arwyneb gwastad/Concrit
- Lle mawr i gynnal gweithgaredd – dim darnau gosod
- Adnoddau i'w hychwanegu ymlaen llaw – Mes i'w cuddio o gwmpas yr ardal

<u>Adnoddau Gweithgaredd</u>

Gallu ychwanegu nodweddion rhydd – boncyffion, teiars ar gyfer plannu

- Gallu addasu adnoddau i gynnwys cyd-destunau amrywiol – gan ddibynnu ar thema'r ystafell ddosbarth
- Adnoddau syml – gellir eu paratoi gan y plant os oes angen – cost effeithiol

# Ardal awyr agored – a oes modd ei haddasu?





Mae ar blant angen y rhyddid a'r her a ddarperir gan amgylcheddau awyr agored naturiol i gydweithio, strwythuro a chynnal eu gweithgareddau heb fawr iawn o ymyriad gan oedolion (Maynard et al 2011).

**Lle Chwarae Antur**
<u>Amgylchedd Naturiol</u>

- Lle cyfoethog o ran y synhwyrau
- Annog archwilio

<u>Ar y ddaear/Lle</u>

- Ardal fawr o goetir i gynnal gweithgaredd
- Mynediad at fyd natur – Glaswellt, Mes, Dant y Llew
- Arwyneb anwastad / llethr – Asesiad risg a rheolau i'w hystyried cyn y gweithgaredd – Sgaffaldio
- Deunyddiau rhydd wedi'u defnyddio'n adnoddau – Glaswellt, Dant y Llew, Mes. Darnau gosod wedi'u cynnwys o bosibl yn y gweithgaredd – Coed (cartref gwiwer), Glaswellt (cacennau bach glŵp)


<u>Adnoddau Gweithgaredd</u>

- Adnoddau naturiol i'w cynnwys yn y gweithgaredd – Coed, Glaswellt, Mes – cost effeithiol a chynnig profiadau

Bu'r myfyrwyr yn trafod eu meddyliau am wahanol leoedd a chan ddefnyddio ap SEESAW[5] buont yn rhannu eu profiadau o'u hymarfer. Lle nodwyd diffyg adnodd a 'mannau anodd' ganddynt, awgrymasant y gallai'r rhan fwyaf o leoedd gael eu trawsnewid drwy ychwanegu adnoddau, defnyddio darnau rhydd a deunyddiau ailgylchadwy a allai gynnig cyfleoedd awyr agored o hyd, hyd yn oed lle gallai fod prinder lle gwyrdd.

[5] Portffolio digidol yw Seesaw a sbardunir gan fyfyrwyr; mae'n grymuso myfyrwyr o unrhyw oedran i ddogfennu'n annibynnol yr hyn y maent yn ei ddysgu yn eu mannau dysgu a'i rannu gyda thiwtoriaid, cyd-ddisgyblion a hyd yn oed y byd. (http://itunes.apple.com/us/app/seesaw-the-learning-journal )

# Pam defnyddio Cynllunio Thematig?




- Mae'n hynod effeithiol ar gyfer addysgu'r cwricwlwm a sgiliau mewn fformat ystyrlon a pherthnasol (Thomas a Lewis, 2016).
- Mae Ward yn awgrymu ei fod yn cynyddu ymrwymiad plant (2000)
- Mae'n defnyddio ymagwedd gyfannol (Dalton a Boyd,1992)
- Cysylltiadau â thriongl Cyfnod Sylfaen Thomas a Lewis (2016)

Mae cynllunio thematig yn fodd i'r ymarferwr ymateb i anghenion y dysgwr a gall wneud cyfarwyddiadau'n fwy eglur. Trwy gyflwyno thema i'r dysgu, gellir sicrhau cyd-destun mwy ystyrlon a symudir y ffocws cyfarwyddol o ddarnau unigol o wybodaeth at wybodaeth sy'n cylchdroi o gwmpas pwnc neu neges ystyrlon. Mae dysgu thematig effeithiol yn defnyddio themâu fel 'glud cysyniadol' i ddysgwyr a gall gryfhau cysylltiadau â gwybodaeth.

# Rhedynen

© Jackie Morris a Mererid Hopwood: 'Geiriau Diflanedig' (Macfarlane, Morris a Hopwood, 2019; Graffeg).



# Cynllunio Thematig

| Tywod/padell wydn | Chwarae rôl | Cornel Lyfrau | Ardal ysgrifennu | Ardal ymchwilio | Awyr Agored | TGCh | Adeiladu | Ardal fathemateg | **Crefft** | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Padell wydn gynhanesyddol gyda llysysyddion | Canolfan arddio | Llyfrau natur – tymhorol | Adrodd storïau | Gwahanol fathau o redyn | | Edrych ar gylch bywyd / sut maen nhw'n cenhedlu | Adeiladu gwalau â rhedyn | Paru rhif ysgrifene dig â'r ffisegol | Glanhawyr pibell o wahanol hydoedd i wneud Rhedyn | Gwneud cychod rhedyn |

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Blwch Teimlo – mae'r plant yn defnyddio geiriau disgrifio am y rhedyn ac yna dangoswch y rhedyn iddynt a gofyn iddynt ddisgrifio'r hyn a welant.
Adrodd stori – Creu stori (gweler datblygiad creadigol), a'r plant i ddweud eu stori a chreu lluniau i ddarlunio'r stori.
Pasteiod mwd rhedyn – y plant i wneud y pasteiod, eu haddurno â darnau rhedyn yna **ysgrifennu** rysait amdano (cysylltiadau â datblygiad creadigol).

Thema'r wythnos hon yw'r

## Rhedynen

### Datblygiad creadigol

Printio â Rhedyn – Printio mewn Mwd neu Baent neu ddefnyddio rhedyn yn frwsh paent.
Gwneud coronau rhedyn
Gludwaith o redyn a deunyddiau naturiol
Tynnu lluniau o Redyn / Rhwbiadau Rhedyn – Golosg,
Creu cymeriad; Mr Rhedyn gydag ôl-stori (cysylltiadau ag I, Ll a Ch) .
Chwarae cynhanesyddol gyda dinosoriaid llysysol a Rhedyn
Gwasgu Rhedyn – gwasgu rhedyn rhwng deunyddiau
Gludwaith rhedyn papur sidan

### Datblygiad corfforol

Rhedyn yn Dawnsio
Ras gyfnewid paru rhedyn – paru gwahanol rywogaethau o redyn â lluniau neu enw
Taith gerdded natur – ceisio dod o hyd i redyn / lliwiau / maint

### Datblygu'r Saesneg

Beth yw'r gair Saesneg am Redynen – Fern
Geiriau i ddisgrifio rhedynen - lliwiau
Mannau lle ceir hyd iddynt yn Saesneg

### TGCh

Recordio Pasteiod Mwd – fideo
Tynnu ffotograffau o blannu rhedyn, coronau a gweithgareddau eraill
Gwylio fideos o gylch bywyd rhedyn
Tynnu llun rhedynen ar ap dwdlan i blant

### Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Paru ac Enwi Rhannau o'r Rhedynen
Plannu Rhedyn – ble a pham? Mae angen cysgod ar redyn
Cylch fywyd planhigyn y Rhedynen – creu poster a chyflwyno eu canfyddiadau mewn grwpiau
Darllen – *Llyfrau Tymhorau, Angharad Tomos* – trafod y tymhorau a'r newidiadau i fyd natur

### Datblygiad Mathemategol.


Trefnu rhedyn o wahanol feintiau
Prynu Rhedyn mewn Canolfan Arddio (ardal chwarae rôl) - cael y plant i brynu rhedyn â darnau 50c, 10c, 5c, 2c, ac 1c; gan ddibynnu efallai ar eu hyd

### Datblygiad Personol a Chymdeithasol

Beth mae Rhedyn yn ei wneud i'r amgylchedd? – Beth allwn ei wneud i ofalu am yr amgylchedd?
Ffrindiau rhedyn - Creu eu hunain neu eu teulu o redyn, gyda deunyddiau naturiol eraill neu brintio.
Mewn grwpiau, trafod beth sy'n arbennig a gwahanol amdanyn nhw a'u teuluoedd.

<table>
<tr><td colspan="9">Cynllun Gwers y Rhedynen</td></tr>
<tr><td colspan="9">Amcan Dysgu:<br>• Gallu disgrifio’r rhedynen i’r dosbarth gan ddefnyddio amrywiaeth o’u synhwyrau.<br>• Gallu creu patrymau ar ffabrig gan ddefnyddio’r rhedyn.</td></tr>
<tr><td>Nifer y Plant: 5-6</td><td>Oedran y plant: 4-5</td><td colspan="3">Amser: 10:00</td><td colspan="4">Hyd y gweithgaredd: 1 awr</td></tr>
<tr><td colspan="2">Maes Dysgu</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPaCh</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DCorff</td><td>DC</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd: Datblygiad corfforol (sgiliau echddygol manwl), Gwybodaeth a Dealltwriaeth o’r Byd, ac Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu.</td><td colspan="7">Cysylltiadau â’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:<br>• ‘Cyfnewid syniadau wrth drafod yn unigol ac mewn grwpiau bach, e.e. gyda ffrindiau’ (Llywodraeth Cymru, 2014).</td></tr>
<tr><td colspan="2">Medr:<br>• ‘Gweithgareddau sy’n caniatáu iddynt ddefnyddio eu synhwyrau a bod yn greadigol a dychmygus’ (Llywodraeth Cymru, 2015, t.18)</td><td colspan="7">Ystod:<br>• ‘Cael profiad helaeth o iaith o’u cwmpas sy’n eu trwytho yn yr iaith lafar a’r ysgrifenedig’ (Llywodraeth Cymru, 2015, t.18)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Adnoddau:<br>• Rhedyn<br>• Papur<br>• Lliain<br>• Morthwyl<br>• Pegiau<br>• Paent</td><td colspan="7">Gwahaniaethu:<br>Mwy galluog: - Llai o gymorth gan oedolyn.<br>- Annog y plant i ddefnyddio geirfa newydd neu ddisgrifiad manylach e.e. brawddegau hirach.<br>Llai galluog: - Defnyddio cwestiynau annog i ysbrydoli neu helpu’r plant i feddwl am eiriau disgrifio.<br>- Cynorthwyo’r plant i bwnio’r rhedynen os yw’n ofynnol. Neu os nad yw’r plentyn yn gallu dal y morthwyl, ei gael i brintio â’r rhedyn gan ddefnyddio paent.</td></tr>
</table>

| **Cynllun Gweithgaredd Manwl:**<br>**Darganfod rhedyn** | |
|---|---|
| **Hyd:** 10 Munud | **Cyflwyniad:**<br>• Cyn dechrau'r wers, rhowch y Rhedyn yn y lle awyr agored.<br>• Dywedwch wrth y plant eich bod wedi canfod rhywbeth newydd y tu allan, a'ch bod am ei ddangos iddynt.<br>• Ar ôl i'r plant ddod o hyd i'r rhedyn, gofynnwch iddynt gau eu llygaid a theimlo'r Rhedynen a gofyn iddynt ddisgrifio sut deimlad ac arogl sydd gan y rhedynen.<br>• Wedyn gofynnwch i'r plant edrych a disgrifio sut olwg sydd ar y rhedynen. (Crëwch ddiagram gwe pry cop yn dystiolaeth o'r gweithgaredd) |
| **:** 45 Munud | **Prif Weithgaredd:**<br>• Rhannwch y dosbarth yn 3 grŵp a dewis un grŵp ar y tro i 'Bwnio Rhedyn', gan anfon y grwpiau eraill i ffwrdd am chwarae rhydd.<br>• Eglurwch ac arddangoswch i'r plant sut mae 'pwnio' y rhedyn<br>• Gosodwch y rhedyn ar ddarn o bapur yn y safle dymunol a'i orchuddio â darn o liain. Cysylltwch nhw â'i gilydd â phegiau, i sicrhau na fyddant yn symud oddi wrth ei gilydd.<br>• Yna rhowch forthwyl iddynt bwnio'r Rhedynen yn y lliain nes y gallant weld Patrwm drwy'r lliain.<br>• Ar ôl i'r plant gwblhau'r dasg, rhowch y cyfle iddynt addurno ymhellach; os na, cylchdrowch y grwpiau.<br>• Ailadroddwch nes bod pob grŵp wedi cael ei dro. |
| **Hyd:** 5 Munud | **Sesiwn Lawn:**<br>• Pan fydd pob grŵp wedi gorffen, casglwch y plant mewn cylch i ofyn iddynt beth maent wedi'i ddysgu o weithgaredd heddiw? |





# Helygen

© Jackie Morris a Mererid Hopwood: 'Geiriau Diflanedig' (Macfarlane, Morris a Hopwood, 2019; Graffeg).

# Cynllunio Thematig

| Tywod /padellwydn | Chwarae rôl | Cornel lyfrau | Ardal ysgrifennu | Ardal ymchwilio | Awyr Agored | TGCh | Adeiladu | Ardal fathemateg | Ardal grefft | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Brwshys paent helyg, gan gysylltu gwahanol berlysiau. | Tref Llwynhelyg | Llyfrau ffeithiol, coed, lindys. | Rhwbio dail helyg | Cenawon coed a lindys | Ailblannu helyg | Rhaglennu Beebots i fynd drwy ddrysfa helyg | Defnyddio toes chwarae a brigau i wneud siapau pebyll | Offer mesur | Daliwr haul o ddail helyg | Gyrru hedyn/cangen i lawr yr afon |

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Geiriau disgrifio am helygen o'i chymharu â helygen ddeilgron

Ysgrifennu'r 'H' neu 'Helygen' â ffyn helyg mewn compost.

Llyfr stori 'Gentle willow'.

Ymateb ar lafar i'r deunydd pwnc yn llyfr 'Gentle willow'.

Beth sy'n eich gwneud yn drist, trafodaeth grŵp.

Gan ddefnyddio helyg a glud, gwneud gair Helygen gan ddefnyddio cylchoedd wedi'u torri o ddeilen ar gyfer yr 'e'.

Cerdd helygen mewn grŵp gyda chymorth oedolyn

## Datblygiad corfforol

Datblygu sgiliau gwehyddu helyg â gwellt papur.

Dysgu gwehyddu helyg i siâp seren.

Brwshys paent helyg

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Hanes gwehyddu helyg.

Pwy sy'n dal i'w defnyddio heddiw? Ym mha leoedd o gwmpas y byd?

Gwehyddion helyg lleol yn dod i mewn i siarad.

Taith gerdded natur, chwilio am helygen ar dir yr ysgol neu dir lleol.

Plannu Helygen, mae'n ailwreiddio ei hun.

Siâp dail yr helygen, beth sy'n eu gwneud yn wahanol i ddail eraill? Cylch bywyd helygen, hadau'n arnofio i lawr yr afon.

Gwahaniaethau rhwng helygen ddeilgron a helygen wylofus

## Thema'r wythnos hon yw'r Helygen

## TGCh

Defnyddio'r ap mesur ar iPad i ganfod pa mor hir yw darn o helyg.

Ymchwilio i wahanol fathau o helyg gan ddefnyddio http://growninwales.co.uk/giw_grower/west-wales-willows/

Rhaglennu Beebots i fynd drwy ddrysfa helyg, i gyrraedd y paill.

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol

Helygen wylofus, pam mai'r enw hwn sydd arni? Beth sy'n eich gwneud chi'n drist?

Stori Gentle Willow am farwolaeth, archwilio teimladau'r plant am y llyfr a chaniatáu amser cylch i'r plant rannu storïau gan ddefnyddio tegan meddal ar gyfer cymryd tro.

## Datblygiad creadigol

Gwehyddu helyg yn siâp seren

Ymarfer gwehyddu ar goeden Nadolig

Sut mae'r cenawon coed ar helygen ddeilgron yn teimlo? Ac yna bywluniad o helygen ddeilgron

Defnyddio gwlân cotwm i wneud gludwaith o gangen helygen ddeilgron

Rhwbiadau dail helyg

Printio dail helyg mewn clai

## Datblygu'r Saesneg

Coed helyg yn hanes Cymru

Enwau lleoedd fel 'Willowtown' yn Glyn Ebwy

Ei ddefnyddio at fasgedi o wahanol fathau fel potiau cimwch

## Datblygiad Mathemategol.

Mesur helyg mewn troedfeddi- Marcio ar y llawr, 1 droedfedd, 2 droedfedd ac ati

Gofyn i'r plant ddidoli'r helyg yn ôl eu hyd.

Cael darnau bach o helyg o amrywiol hydoedd a gofyn i'r plant eu didoli yn nhrefn eu hyd a'u gludo ar bapur.

Mesur helyg, gan ddefnyddio pren mesur, canfod 5 darn o helyg sydd i gyd yn 5cm, 7cm ac ati.

Darnau trwchus a thenau o helyg.


<table>
<tr><td colspan="4">Dyddiad: 7 Rhagfyr 2018</td><td colspan="4">Amser cyflenwi’r wers: 2.30pm</td></tr>
<tr><td colspan="2">Oedran y plant: 6-7 oed</td><td colspan="3">Nifer y plant: 12</td><td colspan="3">Hyd y sesiwn: 1 awr</td></tr>
<tr><td>Maes Dysgu (Cwricwlwm Cyfnod Sylfaen):</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPaCh</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DCorff</td><td>D C</td></tr>
<tr><td colspan="8">Amcan/ion Dysgu:<br>• Gallu deall bod helyg yn adnodd a ddefnyddiwyd ers llawer o flynyddoedd i wehyddu ac i greu strwythurau.<br>• Gallu llawdrin helyg i greu’r effaith ddymunol.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Medr o Faes Dysgu Cyfnod Sylfaen:<br>• Datblygu sgiliau llawdrin manwl<br>• Defnyddio amrywiaeth o gyfarpar a symbyliadau bach a mawr</td><td colspan="4">Ystod o Faes Dysgu Cyfnod Sylfaen:<br>• Datblygu eu sgiliau echddygol manwl a bras drwy eu gweithgareddau ymarferol a defnyddio amrywiol offer a chyfarpar<br>• Bod yn rhan o weithgareddau corfforol sy’n eu galluogi i weithio fel unigolion, gyda phartner ac mewn grwpiau bychain, gan rannu syniadau a helpu ei gilydd i wella eu gwaith</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cysylltiadau â Meysydd / Elfennau’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:<br>• Gwrando ar eraill, gyda sylw cynyddol, gan ymateb fel arfer yn briodol, e.e. dilyn cyfarwyddiadau<br>• Defnyddiau unedau safonol i fesur: – hyd, uchder a phellter: metrau, hanner metrau neu centimetrau<br>• Defnyddio strategaethau gwirio i benderfynu a ydy atebion yn rhesymol</td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd:</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPaCh</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DCorff</td><td>DC</td></tr>
<tr><td colspan="4">Adnoddau: Canghennau helyg, sail bren gyda thyllau wedi’u drilio iddi (dewisol), cortyn, siswrn, pren mesur a phen.</td><td colspan="4">Gwahaniaethu: disgyblion MAT / ADY<br>Llai abl: Darparu cardiau cyfarwyddyd gweledol wedi’u lamineiddio i’w dilyn (lluniau o bob cam).<br>Rhoi cymorth wrth ddefnyddio’r pren mesur.<br>Mwy abl: estyn eu dysgu drwy ddangos iddynt a gadael iddynt glymu eu cwlwm eu hunain.</td></tr>
</table>

| **Cynllun Manwl o’r Wers:** | |
|---|---|
| Cysylltu â dysgu blaenorol y plant: Adnabod rhif a bod yn ymwybodol o swyddogaeth pren mesur. Llawdrin gwellt crefft i ymgyfarwyddo â’r sgiliau plygu ac edafu sy’n ofynnol. | |
| Hyd: 15 munud | Cyflwyniad:<br>Dechreuwch y gweithgaredd dan do, gan ddangos sioe sleidiau bwrpasol i’r plant ar y cyfrifiadur am siwrnai’r helygen, ble cafodd ei thyfu, sut cafodd ei chynaeafu. Dangoswch iddynt enghreifftiau o wehyddu helyg a thrafodwch ers pryd y bu hyn yn digwydd.<br>Symudwch y grŵp i ardal yr Ysgol Goedwig a dangoswch iddynt yr helyg yn socian, a gofyn am eu cymorth i’w tynnu o’r dŵr. |
| Hyd: 40 munud | Prif Weithgaredd:<br>Bydd y plant yn gwneud eu sêr Nadolig eu hunain ar sail 1:1 neu 1:2 gan ddibynnu ar eu gallu. Gyda hanner ffon helyg, gofynnwch i’r plant ddewis y pen mwyaf trwchus. O’r pen hwnnw, mae angen iddynt fesur 6 modfedd a’i farcio â phen, ac yna o’r marc mesur 6 modfedd arall, ac ailadrodd hynny deirgwaith eto. Yna dylent ddal yr helygen wrth y marc pen cyntaf a phlygu’r helygen ar y tri marc pen nesaf i ffurfio triongl o onglau cyfartal. Daliwch y triongl yn ei le ac edafu pen yr helygen drwy’r triongl a’i phlygu wrth y marc olaf. Dylid edafu drwy’r triongl eto i bwyntio pen yr helygen i ble mae eu llaw yn ei dal. Dylai hyn greu siâp seren. Clymwch gan ddefnyddio’r helyg sydd dros ben i greu’r pwynt olaf. Os oes angen, gellir ei diogelu â chortyn. |
| Hyd: 5 munud | Sesiwn lawn (sicrhau dealltwriaeth):<br>Casglwch y plant o gwmpas y cylch boncyffion ac adolygu sut olwg sydd ar y goeden Nadolig yn awr – a yw’n gadarn? Gofynnwch i’r plant beth oedd yn galed neu’n hawdd am y gweithgaredd, yn eu barn nhw?<br>Holwch ymhle efallai y byddant yn arddangos eu sêr Nadolig?<br>Anogwch nhw i feddwl am brosiectau gwehyddu yn y dyfodol i’r dosbarth. |

**Asesiad**: (e.e. Ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu), Adolygol (asesiad o ddysgu), Cwestiynau Allweddol i'w gofyn i'r disgyblion)
Adolygol: Erbyn diwedd y sesiwn, bydd ganddynt gynnyrch gorffenedig y seren.
Ffurfiannol: Dylid arsylwi galluoedd mesur y plant i lywio cynllunio pellach.
Cwestiynau allweddol:
"A ydych chi'n credu y bydd y darn hwn o helyg yn ddigon hir?"
"A ydy'r holl ddarnau rydych wedi'u marcio yn edrych tua'r un hyd?" "Sut allech chi wneud yn siŵr?"
"Beth oedd yn hawdd/yn galed am y gwehyddu?"
"Tybed beth arall/pa siapiau eraill y gallem eu gwehyddu o helyg?"



# Dyfrgi



© Jackie Morris a Mererid Hopwood: 'Geiriau Diflanedig' (Macfarlane, Morris a Hopwood, 2019; Graffeg).

# Cynllunio Thematig

| Tywod / padell wydn | Chwarae rôl | Cornel lyfrau | Ardal ysgrifennu | Ardal ymchwilio | Awyr agored | TGCh | Adeiladu | Ardal fathemateg | Ardal grefft | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynefinoedd dyfrgi, byd bychan | Gwisgo i fyny fel dyfrgwn | Cornel gwtsh, llyfrau dyfrgi | Printio pawennau, cardiau annog pysgod a dyfrgwn | Padell wydn a gêm bysgota. | bstacle Cwrs rhwystrau ac afon o dunffoil. | Clipiau o ddyfrgwn | ilding o Adeiladu gwâl dyfrgi â chlai a cherrig | Didoli a pharu | Dyfrgwn o roliau papur cegin a pheintio olion traed | Afon o dunffoil |

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

**Efallai bod dyfrgi yn air newydd i rai o'r plant, archwilio sut mae'n swnio.**
**Beth arall sy'n dechrau â sŵn 'd'?**
**Cân 5 dyfrgi bach.**
**Geiriau/ymadroddion i ddisgrifio dyfrgwn (blewog, chwareus)**
**Llyfrau - 'The otter who loved to hold hands' a 'Goodnight little sea otter' a 'The Utterly Otterleys'**
Ffeil ffeithiau am ddyfrgwn – dadansoddi'r testun i gael gwybodaeth am ddyfrgwn a chreu ffeil ffeithiau ddifyr

Thema'r wythnos hon yw
**Dyfrgwn**

**Datblygu'r Saesneg**

**Lliwiau'r dyfrgi yn Saesneg, black, brown a grey**
**Cornel gwtsh – Mae dyfrgwn yn hoffi cwtsh, y plant i ddarllen llyfr i Flo y dyfrgi.**
**'Dyfrgi' yn Saesneg - otter**

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

**Cyflwyno Flo i'r plant (tegan meddal o Ddyfrgi), a allwch chi ofalu amdani? Bwydo ychydig o bysgod iddi.**
**Pasio'r dyfrgi o gwmpas y cylch a'i ddal fesul un.**
Darllen llyfr stori "Do Unto Otters" gan Laurie Keller o gwmpas cylch boncyffion gyda theganau meddal o ddyfrgi a chwnigen (dewisol). Mae'r llyfr yn adrodd hanes Cwningen a'i chymdogion newydd o Ddyfrgwn, ac mae'n seiliedig ar foesau a thrin eraill yn y modd yr hoffech chi eich hunain gael eich trin.

Dyfrgwn Môr yn arnofio gyda'i gilydd; **Dal dwylo fel nad ydynt yn drifftio ymaith, ei actio yn rhan o gân 5 Dyfrgi Bach.**

**Datblygiad corfforol**

**Cwrs rhwystrau dyfrgwn, dilyn yr olion traed.**
**Ble mae'r dyfrgi'n cuddio? O dan, ar ben, wrth ymyl, ar bwys….** Gwingo fel mae dyfrgi'n gwingo ei gynffon, plymio a nofio gan ddefnyddio'ch breichiau/coesau, cropian yn agos i'r llawr i symud fel dyfrgi. **Gêm o guddio gyda'r plant.**
**Gêm bysgota.**

**TGCh**


**Gwylio clipiau dyfrgi David Attenborough.**
**Fideo o ddyfrgwn yn dal dwylo.**
**Tynnu ffotograffau o'r cwrs rhwystrau a'r plant yn cymryd rhan, eu gwneud yn llyfr.**
Defnyddio Ipad - Youtube "Sea Otter nursery rhyme",

| Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd | Datblygiad Mathemategol | Datblygiad creadigol |
|---|---|---|
| **Beth mae dyfrgwn yn ei fwyta? – Pysgod, brogaod a chrancod. Gwneud plât cinio.**<br>Cadwyn fwyd – defnyddio testunau a ffynonellau eraill i ymchwilio i gadwyn fwyd y dyfrgi.<br>**Gwneud llithrennau dŵr mwd.**<br>**Padell synhwyraidd gyda cherigos, clai, brigau a theganau dyfrgwn.**<br>**Cynefinoedd dyfrgi, gwalau**<br>**Arnofio a suddo yn y badell ddŵr: dyfrgwn yn plymio am bysgod. Cylch bywyd dyfrgi o fod yn genau i oedolyn.**<br>**Taith i gors Magwyr, i geisio gweld dyfrgwn;** Pam fyddai dyfrgi'n hoff o fyw yno tybed? | **Lluniau dyfrgwn o wahanol feintiau, bach a mawr, i'w paru.**<br>**Didoli lliwiau ffwr, yn ôl brown, llwyd a du.**<br>**Cyfrif cân 5 Dyfgri Bach gan ddefnyddio pypedau bys i gyfrif.**<br>**Cyfrif olion traed y dyfrgi ar y llawr; Olion traed dyfrgi (wedi'u cyflenwi gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent); Edrych ar eu maint o gymharu â mamaliaid eraill**<br>Rasio dyfrgwn – Defnyddio piben law neu diwb hir, rhyddhau gwahanol ddeunyddiau/gwrthrychau brown (creon, deilen, pensel, carreg, brigyn, mesen, papur) yn un pen ac amseru pa wrthrych sy'n 'nofio' i'r gwaelod gyflymaf, gan gofnodi'r canlyniadau a llunio graff fel estyniad. | **Dyfrgwn Clai – defnyddio clai i wneud dyfrgwn a'u paentio ar ôl iddynt sychu**<br>**Gwneud dyfrgwn gan ddefnyddio rholiau papur cegin gan ludo wyneb, breichiau, coesau a chynffon arnynt**<br>**Creu dyfrgwn gan ddefnyddio ôl troed brown, gan ychwanegu llun o lygaid a wisgers.**<br>**Gwneud Afon o Dunffoil.**<br>**Ffabrig ffwr ffug, hetiau dyfrgi i wisgo i fyny. Offerynnau cerdd sy'n gwneud sŵn 'gwichlyd'** |

<table>
<tr><th colspan="8">Cynllun Gwers y<br>Dyfrgi</th></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad: 3 Mawrth 2019</td><td colspan="6">Amser cyflenwi'r wers: 10.00am</td></tr>
<tr><td>Oedran y plant: 2-3 oed</td><td colspan="3">Nifer y plant: 4</td><td colspan="4">Hyd y sesiwn: 20 munud</td></tr>
<tr><td>Maes Dysgu: Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar</td><td>DPCLl</td><td>DC</td><td>DC orf</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DM</td><td>GDB</td><td>DS</td></tr>
<tr><td colspan="8">Amcan/ion Dysgu:<br>• Gallu dilyn cyfarwyddiadau cam wrth gam i gwblhau cwrs rhwystrau<br>• Gallu datblygu sgiliau llythrennedd corfforol</td></tr>
<tr><td>Datganiad maes dysgu ac ystod oedran:<br>• Gallu dilyn cyfarwyddiadau (Gwrando a sylw, 30-50 mis)<br>• Dangos dealltwriaeth o arddodiaid fel 'o dan', 'ar ben', 'y tu ôl' drwy gyflawni gweithred. (Dealltwriaeth, 30- 50 mis)</td><td colspan="7">Nodweddion Dysgu Effeithiol:<br>• Chwarae ac Archwilio: Bod yn fodlon 'rhoi cynnig arni'<br>• Dysgu gweithredol: Cymryd rhan a chanolbwyntio</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cysylltiadau â meysydd dysgu a datblygiad eraill:<br>• Symud yn rhydd a chyda phleser a hyder mewn amrywiaeth o ffyrdd. (Symud a Thrin a Thrafod, 30-50 mis)<br>• Defnyddio iaith leoliadol (Siâp, Gofod a Mesur 30-50 mis)</td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd:</td><td>DPCLl</td><td>DC</td><td>DCorff</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DM</td><td>GDB</td><td>DS</td></tr>
<tr><td>Adnoddau:<br>Het a gwasgod flewog dyfrgi, twnnel chwarae, olion traed dyfrgi wedi'u lamineiddio, cerrig cydbwyso, boncyff, sleid, padell wydn a dŵr. Dillad: trowsus gwrth-ddŵr ac esgidiau glaw.</td><td colspan="7">Gwahaniaethu: disgyblion MAT / ADY<br>MAT – efallai'n gallu dilyn cyfarwyddiadau dau gam er enghraifft, "ewch i lawr y llithren ac yna sblasio drwy'r pwll dŵr"<br>ADY – efallai bydd angen i rai plant afael mewn llaw oedolyn wrth fynd ar y cerrig cydbwyso a thros y boncyff am y tro cyntaf er mwyn magu hyder, ceisiwch eu hannog i'w wneud eu hunain yr ail dro (sgaffaldio).</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">Cynllun Manwl o’r Wers:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cysylltu â dysgu blaenorol y plant:<br>Dilyn cyfarwyddiadau un cam: Cymryd rhan mewn chwarae dychmygus</td></tr>
<tr><td>Hyd: 5<br>Munud</td><td>Cyflwyniad:<br>Cynhesu’r corff ar sail yr hyn y mae dyfrgi’n hoffi ei fwyta. Rydym wedi trafod yn flaenorol fod dyfrgwn yn hoffi bwyta pysgod, brogaod a chrancod; gofynnwch i’r plant “sut mae broga’n symud?” Dylent ddweud neu arddangos neidio, anogwch y grŵp cyfan i neidio. Wedyn pysgodyn, “sut mae pysgodyn yn symud?” Ailadroddwch y weithred a gynigir gan y plant, ac ailadrodd hyn eto ar gyfer cranc. Ewch drwy’r holl symudiadau drwy alw ‘pysgodyn’, ‘broga’ neu ‘cranc’ ar hap.</td></tr>
<tr><td>Hyd: 10<br>Munud</td><td>Prif Weithgaredd:<br>Tywyswch y plentyn o gwmpas y cwrs rhwystrau 1:1 gan arddangos a rhoi cyfarwyddiadau clir gam wrth gam ag iaith leoliadol.<br>Bocs ffwr – y cam cyntaf yw gwisgo i fyny yn y ffwr dyfrgi i gadw’n gynnes.<br>Twnnel – anogwch y plant i gropian drwy’r twnnel, gan esgus bod y dyfrgi’n cropian allan o’i wâl.<br>Olion traed dyfrgi – esgus bod angen inni ddilyn y dyfrgwn eraill i lawr i’r afon gan gamu ar bob un ôl troed ar y cerrig cydbwyso a thros y boncyff.<br>Llithren – cael y plant i ddringo’r llithren ac esgus mai llithren fwd yw hi, a’u bod yn llithro i’r afon i chwarae gyda’u ffrindiau dyfrgi.<br>Afon – gydag esgidiau glaw amdanynt, sblasio a chwarae yn y dŵr.</td></tr>
<tr><td>Hyd: 5<br>munud</td><td>Sesiwn lawn (sicrhau dealltwriaeth):<br>Gyda’i gilydd fel grŵp, adolygwch y lluniau a dynnwyd ar yr iPad o’r plant yn cwblhau’r cwrs rhwystrau, dogfennwch unrhyw sylwadau a wnânt amdanynt eu hunain a’u cyfoedion yn esgus bod yn ddyfrgwn. Gellid defnyddio’r lluniau hyn a chipluniau o lais y plant ar gyfer arddangosiad.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Asesiad: (e.e. Ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu), Adolygol (asesiad o ddysgu), Cwestiynau Allweddol i’w gofyn i’r disgyblion):<br>Asesiad ffurfiannol: gwneud arsylwadau o sgiliau echddygol bras y plant a’u gallu i ddilyn cyfarwyddiadau.<br>Cwestiynau allweddol:<br>“Allwch chi roi’r het ar eich pen?”<br>“Allwch chi roi’ch breichiau drwy’r wasgod?”<br>“Allwch chi gropian drwy’r twnnel?” ac ati.<br>“Ydych chi’n credu bod dyfrgwn yn hoffi chwarae yn y dŵr?”<br>“Beth oedd eich hoff beth i’w wneud”?</td></tr>
</table>




Mae gan wahanol safleoedd wahanol leoedd - peidiwch â gadael i hyn eich digalonni. Gellir troi hyd yn oed lle chwarae llawr rwber yn ‘lle chwarae dyfrgwn’ ag ychydig o greadigrwydd ac ychydig o ddarnau rhydd wedi’u hailgylchu!

| **Cynllun Gwers 2 y Dyfrgi** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad: 8/1/19 | | | Amser cyflenwi'r wers: 10:30am | | | | |
| Oedran y plant: 5/6 oed | | Nifer y plant: 4 | | | | | |
| Maes Dysgu (Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen): | I, Ll a Ch | DPaCh | DM | DG | GDB | DC orf f | DS |
| Amcan/ion Dysgu:<br>• Adnabod y gwahanol **ddyfrgwn** a'u cartrefi<br>• Deall bod gwahanol fathau o **ddyfrgwn** yn byw mewn gwahanol amgylchedd ac yn bwyta gwahanol bethau | | | | | | | |
| Medr o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:<br>• Meddwl am gwestiwn ac yna ei ofyn a gwrando ar yr atebion | | | Ystod o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:<br>• Dysgu enwau anifeiliaid a'r amgylchedd lle maent yn byw | | | | |
| Cysylltiadau â Meysydd / Elfennau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:<br>• Llythrennedd – llefaredd ar draws y cwricwlwm | | | | | | | |
| Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd: | I, Ll a Ch | DPaCh | | | | | |
| Adnoddau:<br>• Taflen wybodaeth syml am ddyfrgwn a'r amgylchedd lle maent yn byw<br>• Paru cardiau â'r dyfrgwn a'r cynefinoedd / cartrefi | | | Gwahaniaethu: disgyblion MAT / ADY<br>**MAT**: defnyddio iPad yn unig i ganfod yr wybodaeth, a llai o gymorth gan y cynorthwyydd addysgu neu'r athro/athrawes<br>**ADY**: plant mwy abl, cynorthwyydd addysgu neu athro/athrawes yn cefnogi'r plant llai abl | | | | |

| **Cynllun Manwl o'r Wers:** | |
|---|---|
| Cysylltu â dysgu blaenorol y plant:<br>Trafod gyda'r athro dosbarth a ydynt wedi dysgu am ddyfrgwn o'r blaen. | |
| Hyd:<br><br>5 munud | Cyflwyniad:<br>• Plant i wylio fideo am ddyfrgwn a'u cynefinoedd a'u cartrefi<br>• Darllen y taflenni gwybodaeth a ddarperir |
| Hyd: 10<br><br>munud | Prif Weithgaredd:<br>• Mewn parau, grwpiau bach neu'n unigol, rhaid i'r plant adnabod y gwahanol ddyfrgwn sydd wedi'u gosod ar y bwrdd gan ddefnyddio'r taflenni gwybodaeth syml, gwybodaeth o'r fideo neu ddod o hyd i'r wybodaeth ar eu pen eu hunain ar yr iPad.<br><br>• Ar ôl i'r plant adnabod y dyfrgwn yn gywir, rhaid iddynt baru'r dyfrgi â'r cartref / cynefin cywir drwy ddefnyddio'r taflenni gwybodaeth syml, gwybodaeth o'r fideo neu ddod o hyd i'r wybodaeth ar eu pen eu hunain ar yr iPad. |
| Hyd:<br><br>5 munud | Sesiwn lawn (sicrhau dealltwriaeth):<br>• Gweld a allant baru'r dyfrgi â'r cartref cywir heb ddefnyddio'r taflenni gwybodaeth na'r iPad, a heb gymorth gan yr ymarferwr. |
| Asesiad: (e.e. Ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu), Adolygol (asesiad o ddysgu,<br>Cwestiynau Allweddol i'w gofyn i'r disgyblion) Cwestiynau Allweddol:<br>Pa ddyfrgi sydd gennych yno?<br>Ble mae'r dyfrgi'n byw, ydych chi'n meddwl?<br>Pa fwyd mae'r dyfrgi'n ei fwyta, ydych chi'n<br>meddwl?<br>Beth yw eich hoff ffaith am ddyfrgwn? | |

<table>
<tr><td colspan="8">Cynllun Gwers 3 y Dyfrgi</td></tr>
<tr><td colspan="3">Dyddiad:</td><td colspan="5">Amser cyflenwi'r wers: 10:50/11am</td></tr>
<tr><td colspan="2">Oedran y plant: 6 – 7 oed</td><td colspan="3">Nifer y plant: 10</td><td colspan="3">Hyd y sesiwn: 45 munud</td></tr>
<tr><td>Maes Dysgu (Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen):</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPaCh</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DCorff</td><td>DC</td></tr>
<tr><td colspan="8">Amcan/ion Dysgu:<br>• Dadansoddi testun a thynnu gwybodaeth briodol i gwblhau'r daflen waith ffeil ffeithiau am ddyfrgwn<br>• Gallu gweithio mewn pâr i gwblhau'r dasg<br>• Ennyn dealltwriaeth o rai o nodweddion dyfrgwn</td></tr>
<tr><td colspan="3">Medr o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:<br>• Didoli a grwpio gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh ar rai adegau<br>• Disgrifio'r hyn y maent wedi'i ganfod a chynnig esboniadau syml</td><td colspan="5">Ystod o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:<br>• Adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr amgylchedd awyr agored<br>• Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn parau a grwpiau bychain</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cysylltiadau â Meysydd / Elfennau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:<br>• Paratoi a gofyn amrywiaeth o gwestiynau, e.e. 'Pwy?', 'Beth?', 'Pam?', 'Pryd?' a 'Sut?', at amrywiaeth o ddibenion ac i sicrhau dealltwriaeth<br>• Rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg<br>• Adnabod a defnyddio nodweddion testun, e.e. teitlau, penawdau a lluniau, i ganfod a deall gwybodaeth benodol<br>• Adnabod gwybodaeth o destun yn gywir a'i didoli'n gategorïau neu'n benawdau<br>• Ysgrifennu testun sy'n ddealladwy i ddarllenwr arall, a allai gynnwys manylion a lluniau</td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd:</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPaCh</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DCorff</td><td>DC</td></tr>
</table>

| **Adnoddau:** | **Gwahaniaethu: disgyblion MAT / ADY** |
| --- | --- |
| 5 Clipfwrdd a Phensel (un rhwng dau)<br>Taflen waith Ffeil Ffeithiau Dyfrgwn<br>Taflenni ffeithiau dyfrgwn, props i gyfateb i’r ffeithiau (dewisol)<br>Lle dysgu awyr agored<br>Rhaid i’r plant wisgo’n briodol i fynd allan i’r awyr agored<br>iPad i dynnu ffotograffau o’r taflenni ffeithiau, a’r plant yn cwblhau’r ffeil ffeithiau i’w harddangos ar y bwrdd pwnc dysgu awyr agored | Sgaffaldio: Rhowch y plant mewn parau o allu cymysg i gefnogi ei gilydd i ddarllen y ffeithiau ac ysgrifennu’r ffeil ffeithiau, e.e. parwch blentyn uchel ei gyflawniad â phlentyn isel ei gyflawniad, MA â MAT.<br><br>Sicrhewch fod digon o staff addysgu ar gael i gefnogi’r plant o gwmpas y llwybr gyda’u darllen a’u hysgrifennu |

<table>
<tr><td colspan="2">Cynllun Manwl o’r Wers:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cysylltu â dysgu blaenorol y plant: Mae’r plant wedi cwblhau ffeil ffeithiau o’r blaen am bengwiniaid felly byddant eisoes yn gwybod sut mae gwybodaeth ar ffeil ffeithiau’n cael ei harddangos, pa fath o wybodaeth sy’n ofynnol a sut mae darllen a dadansoddi testun am wybodaeth. Mae’r plant hefyd wedi edrych yn fras ar ddyfrgwn yn eu modiwl dysgu awyr agored wrth ymchwilio i wahanol fywyd gwyllt cyffredin y DU.</td></tr>
<tr><td>Hyd:<br>5/10<br>munud</td><td>Cyflwyniad:<br>• Cyn mynd allan, rhowch y plant yn eu parau gallu cymysg ac egluro mai dyma’r parau y byddant yn gweithio ynddynt drwy gydol y gweithgaredd.<br>• Ewch â’r plant allan i eistedd yn y cylch boncyffion i gyflwyno’r gweithgaredd a chanfod eu gwybodaeth flaenorol. “Pwy sy’n gallu cofio edrych ar wahanol fathau o fywyd gwyllt rai wythnosau’n ôl? All unrhyw un gofio’r anifail o’r enw dyfrgi? Beth ydych chi’n ei wybod a beth allwch chi ei gofio am ddyfrgwn?”, rhowch ddisgrifiad byr o ddyfrgi rhag ofn nad oes gan rai plant fawr o wybodaeth flaenorol a chyflwynwch y taflenni ffeil ffeithiau dyfrgwn, “a ydyn ni wedi gwneud ffeil ffeithiau am wahanol anifail? Pa anifail oedd hwnnw? Pa fath o bethau oedd angen inni eu canfod i gwblhau’r ffeil ffeithiau?”<br>• Gosodwch ddisgwyliadau ymddygiad:<br>- Dim ond un pâr a ddylai fod wrth orsaf ar unrhyw adeg (y dull gorau fyddai mynd o gwmpas y gorsafoedd i gyfeiriad clocwedd, er mwyn i’r plant gael cyfle i ymweld â phob gorsaf)<br>- Bydd y plant yn cael 7 munud ar y mwyaf wrth bob gorsaf i lenwi’r blwch cyfatebol yn y ffeil ffeithiau, a rhaid iddynt newid gorsafoedd pan gyfarwyddir iddynt wneud hynny.<br>- Rhaid iddynt gydweithio a rhannu cyfrifoldebau, fel un plentyn yn ysgrifennu’r ffeithiau, un plentyn yn darllen y ffeithiau.<br>• Bydd 5 gorsaf a bydd gan bob gorsaf daflen ffeithiau sy’n canolbwyntio ar bwnc penodol y bydd angen i’r plant ei lenwi ar eu taflen waith ffeil ffeithiau.</td></tr>
<tr><td>Hyd:<br>25<br>Munud</td><td>Prif Weithgaredd:<br>• Dechreuwch y gweithgaredd drwy anfon pob pâr at wahanol orsaf, gan atgyfnerthu y byddant yn treulio 7 munud wrth bob gorsaf, gan ddefnyddio’r iPad yn amserydd.<br>• Cefnogwch y plant os oes angen i ddarllen y taflenni ffeithiau, gan sicrhau eu bod yn nodi’r wybodaeth berthnasol<br>• Bydd pob gorsaf yn cynnwys props perthynol i’r daflen ffeithiau i’r plant edrych arnynt, efallai bydd rhai’n eitemau ac eraill yn lluniau, bydd hyn yn eu helpu i gadw gwybodaeth, yn annog y plant i ddefnyddio’r props ar ôl nodi’r wybodaeth ar eu ffeil ffeithiau<br>• Ar ôl i bob grŵp ymweld â phob gorsaf a chwblhau’r ffeil ffeithiau, dewch â’r plant yn ôl i eistedd yn y cylch boncyffion</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Hyd:<br>5<br>Munud</td><td>Sesiwn Lawn (sicrhau dealltwriaeth):<ul><li>Wrth eistedd yn y cylch boncyffion, rhowch gyfle i bob plentyn ddweud un peth wrth y grŵp y mae wedi’i ddysgu yn ystod y gweithgaredd</li><li>“Sut oedd y gweithgaredd yn gwneud ichi deimlo?”</li><li>“A fwynhaoch chi’r gweithgaredd?”</li><li>“Pa wybodaeth allwch chi ei chofio am ddyfrgwn? Beth yw eich hoff ffaith am ddyfrgwn? ”</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="2">Asesiad: (e.e. Ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu), Adolygol (asesiad o ddysgu), Cwestiynau Allweddol i’w gofyn i’r disgyblion)<br>Ffurfiannol – gweld a oedd y plant yn gallu darllen yr wybodaeth ar y taflenni ffeithiau, a oedd angen cymorth arnynt? Pa eiriau oedd angen mwy o gymorth arnynt i’w darllen?<br>Gweld a oedd y plant yn gallu cofnodi gwybodaeth ar y daflen ffeithiau, a wnaethant golli llawer o wybodaeth? A wnaethant gofnodi’r wybodaeth yn y blychau cywir? Sillafu?<br>A oedd y plant yn gallu cydweithio’n gyfrifol i gwblhau’r dasg? A oedd defnyddio parau o allu cymysg wedi helpu? A ddylid fod wedi grwpio’r plant yn ôl gallu?<br>Cwestiynau allweddol – a gawsoch chi wybod ble mae dyfrgi’n byw? A gawsoch chi wybod beth mae dyfrgi’n ei fwyta? Sut olwg sydd ar ddyfrgi? A ddysgoch chi unrhyw ffeithiau difyr am ddyfrgwn? A weithioch chi’n gyfrifol mewn pâr? A golloch chi unrhyw flychau ar daflen y ffeil ffeithiau? A oedd hi’n anodd neu’n rhwydd ysgrifennu’r wybodaeth?</td></tr>
</table>


# Syniadau pellach

**Printio â mwd (Datblygiad creadigol)** – Defnyddiwch fwd i brintio'ch ôl troed ar bapur, wedyn creu corff a thraed dyfrgi gan ddefnyddio ffelt, ffwr, brigau a chortyn a deunyddiau eraill i greu breichiau, cynffon ac wyneb



**Ollie the Otter (TGCh/Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu)**
– Ar Youtube, gwrandewch ar gân addysgiadol "Ollie the Otter". [https://www.youtube.com/watch?v=tUPfPWKBrpk&list=RDtUPfPWKBrpk&start_radio=1](https://www.youtube.com/watch?v=tUPfPWKBrpk&list=RDtUPfPWKBrpk&start_radio=1)
Mae'r fideo'n helpu i arddangos ymddygiad a nodweddion Dyfrgi, ac mae plant yn cofio geiriau ailadroddus y gân yn hawdd, er mwyn iddynt gydganu. Edrychwch i weld a all y plant gofio'r wybodaeth yn y gân, neu ailadrodd yr iaith a ddefnyddiwyd.

**Llyfr stori "Do Unto Otters" (Datblygiad Personol a Chymdeithasol)–** Darllenwch y llyfr stori, "Do Unto Otters" gan Laurie Keller o gwmpas cylch boncyffion. Mae'r llyfr yn seiliedig ar Gwningen a'i chymdogion newydd y Dyfrgwn, ac mae'n adrodd stori am foesau ac am drin eraill yn y modd yr hoffech chi gael eich trin eich hun.



**Gweithgaredd Ffeil Ffeithiau'r DYFRGI: Trosolwg a Nodau:**

**Cwricwlwm –** Mae gweithgaredd Ffeil Ffeithiau'r Dyfrgi yn gwneud cysylltiadau clir â Maes Dysgu Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd yng nghwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, ond mae ganddo hefyd gysylltiadau cryfion â meysydd dysgu eraill fel Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Personol a Chymdeithasol.

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd -** Medr:

- Nodi'r hyn y maent am gael ei wybod a sut mae gwneud hynny
- Didoli a grwpio gwybodaeth gan ddefnyddio TGCh ar rai adegau

Ystod

- Ymchwilio i amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored, yn ogystal â chynnwys amodau naturiol wrth iddynt godi
- Gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn parau a grwpiau bach.
- Dysgu am y synhwyrau sydd gan bobl ac anifeiliaid eraill, a'u defnyddio i fod yn ymwybodol o'r byd o'u cwmpas
- Adnabod rhai anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yn yr amgylchedd awyr agored

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu - Medr**:

- Darpariaeth barhaus a gwell a gweithgareddau â ffocws yn yr amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored
- Profiadau sy'n eu galluogi i fabwysiadu amrywiol rolau, gan gynnwys arweinyddiaeth mewn grŵp bach, dysgu mewn parau neu weithio mewn tîm
- Tasgau a heriau sy'n annog datrys problemau a thrafod.

**Ystod**

- Ymarfer, datblygu a mireinio eu sgiliau ym mhob agwedd ar y ddarpariaeth, gan gynnwys darpariaeth barhaus, a thrwy bob Maes Dysgu

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

**Ystod**

- Gweithgareddau sy'n eu galluogi i fabwysiadu amrywiol rolau, gan gynnwys arweinyddiaeth mewn grŵp bach, dysgu mewn parau neu weithio mewn tîm
- Gwahanol adnoddau fel y rheini ar ffurfiau print a rhyngweithiol

**Theori**

Yn rhan o weithgaredd Ffeil Ffeithiau'r Dyfrgi, gellir grwpio'r plant mewn parau gallu cymysg fel dull 'sgaffaldio'. Cyflwynwyd Theori Sgaffaldio gan Bruner (1990) dan ddylanwad Vygotsky (1978), fel y crybwyllwyd yn Lindon (2012, t.39). Credai Bruner fod plant yn dysgu pan mae rhywun arall mwy profiadol yn sgaffaldio eu dysgu, drwy roi cymorth a lleihau'r cymorth hwnnw'n raddol nes y gallant weithio'n annibynnol. Drwy grwpio plant mewn gallu cymysg, bydd y plant mwy galluog yn cynorthwyo'r plant llai galluog i ddechrau gyda'u darllen a'u hysgrifennu, nes efallai bydd y plentyn llai galluog yn teimlo'n hyderus yn y pen draw i ddarllen ac ysgrifennu'r daflen ffeithiau'n annibynnol.

# Otter Fact File

**Appearance – what do they look like?**

______________________________
______________________________
______________________________
______________________________
______________________________
______________________________
______________________________

**Habitat – where do they live?**

______________________________
______________________________
______________________________

**Diet – what do they eat?**

______________________________
______________________________
______________________________

**Fun Fact – did you know?**

______________________________
______________________________
______________________________
______________________________
______________________________
______________________________

**Species – how many different species of otter are there? What types of otter are found in the United Kingdom?**

______________________________
______________________________
______________________________
______________________________

# Habitat

## Where do otters live?



- Otters dig their own homes called a 'holt'
- Otters love swimming and like to make their holts near rivers.
- Otters cover their holts with lots of sticks, leaves and grass to protect themselves from other animals

# Diet

## What do otters eat?



- Otters like to eat lots different types of fish that they catch in rivers
- Sometimes otters eat frogs and snakes too!
- Otters only eat meat and don't like eating plants or vegetables



© Jackie Morris a Mererid Hopwood: 'Geiriau Diflanedig' (Macfarlane, Morris a Hopwood, 2019; Graffeg).

# Pioden

| Tywod/ Padell wydn | Chwarae rôl | Cornel lyfrau | Ardal ysgrifennu | Ardal ymchwilio | Awyr agored | TGCh | Adeiladu | Ardal fathemateg | Ardal grefft | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Palu i ganfod cist drysor y Bioden | Canolfan bywyd gwyllt | "Magpie learns a lesson" - Sally Morgan, "Messy Magpie" Twinkl Resources | Ansoddeiriau Pioden Cronfa eiriau Pioden i ddweud ? | Defnyddio chwyddwydr i edrych ar bluen go iawn | Gwylio adar ag ysbienddrychau Gwrando ar wahanol grïoedd adar? | Gwefan RSPB i wrando ar wahanol adar? | Adeiladu nyth sy'n gryf i Bioden | Cymesuredd gyda darnau arian a phlu | Gwneud trysor gloyw a fyddai'n dal llygad y Bioden | A ydy plu'n arnofio neu'n suddo? Cymharwch nhw â gwahanol eitemau sy'n arnofio/suddo |

Thema'r wythnos hon yw:

# Pioden

## Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Geiriau Pioden – defnyddio'r geiriau o gronfa eiriau 'Pioden' i greu brawddeg/stori
Siarad ar gyfer Ysgrifennu – defnyddiwch dechneg Pie Corbett 'Siarad ar gyfer Ysgrifennu' i ailadrodd llyfr stori i blant "Magpie learns a Lesson" gan Sally Morgan
Nodi gwybodaeth a ffeithiau o destun i greu ffeil ffeithiau Pioden
Ansoddeiriau Pioden – meddwl am ansoddeiriau i ddisgrifio pioden a'u defnyddio ar y bwrdd pwnc dysgu awyr agored
Wyau Pioden – mynd ar helfa chwilota i ganfod yr wyau Pioden sy'n cyfateb, gyda'r nod o ymuno'r llythyren ffonig â llun
Disgrifio trysor prioden – gloyw, adlewyrchol ac ati

## Datblygiad corfforol

'Tag' aderyn a mwydyn; chwilio am fwydod o gwmpas y tir (glanhawyr pibellau)
Sut mae Piod yn symud? – lledu eu breichiau yn adenydd, neidio fel petaent yn hedfan (SEB)
Mynd ar helfa am drysor Pioden – pethau gloyw
Gwylio Adar – defnyddio man awyr agored mawr yr ysgol i adnabod adar, defnyddio cardiau llun ag adar cyffredin y gallem eu gweld a'u henwau i'w hadnabod yn gywir

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Ffeil Ffeithiau Pioden – ble maen nhw'n byw, beth maen nhw'n ei fwyta, sut olwg sydd arnynt, ffeithiau diddorol am biod, i ba deulu o adar y mae'r bioden yn perthyn

## TGCh

Defnyddio Ipad i recordio fideo, dweud stori am bioden neu ailadrodd "Magpie learns a Lesson" gan Sally Morgan

Defnyddio gwefan RSPB i gasglu ffeithiau am biod ac adar cyffredin eraill a chreu cardiau fflach gan ddefnyddio'r wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod adar.
Defnyddio Youtube neu wefan RSPB i wrando ar gân / crïoedd y Bioden ac adar amrywiol eraill

## Datblygiad Mathemategol

Nyth drysor y bioden – adio cyfanswm y trysor gloyw yn y nyth, Isel eu Cyrhaeddiad: Rhifau 1 a 2 ddigid, MA: rhifau 2 ddigid, Uchel eu Cyrhaeddiad a MAT: rhifau 2 a 3 digid.

## Datblygiad creadigol

Gwneud Pioden – defnyddio amryw ddeunyddiau a'u gludo ar dempled pioden
Plât papur – defnyddio platiau papur a'u torri allan i wneud Pioden
Printio â phlu – rhwbio plu mewn clai i greu patrwm
Lluniadau arsylwadol gan ddefnyddio lluniau o lyfr neu ddelweddau ar-lein
Gwneud nyth – defnyddio blychau, eu llenwi ag eitemau y byddent yn disgwyl eu canfod mewn nyth Pioden
Gwneud ôl troed adar gan ddefnyddio mwd
Gwneud gludwaith / mwclis o'r trysor pioden a ganfuoch chi

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol

Gofalu am ein hamgylchedd lleol - pwysigrwydd gofalu am ein hamgylchedd er mwyn i'r adar barhau i fyw yno, drwy leihau sbwriel, cadw ein cefn gwlad yn lân; beth sydd ei angen ar biod i fyw? Beth maen nhw'n ei fwyta? Pam maen nhw'n ymddangos mewn parau?
Amser cylch y tu allan – cynhaliwch amser cylch yn y cylch boncyffion ar ôl sesiwn adnabod adar i siarad am eu hoff fath o adar a welwyd, pam hwnnw yw eu ffefryn, gwrando ar farn eraill, a'i deall, yn ogystal â'u barn eu hunain; mae pob aderyn yn wahanol – sut mae hyn yn berthnasol i bobl?
Ymchwil annibynnol – eu galluogi i wneud eu hymchwil eu hunain gartref ar Biod, dod â'u canfyddiadau i mewn i'w rhannu

# Cynllunio Thematig

| | | |
|---|---|---|
| Ymchwilio i weld o ble ddaw'r Bioden – ble mae tarddiad y Bioden, sut cafodd y Bioden ei henw<br>Adnabod ardaloedd yn ein cymuned leol lle byddai Pioden yn hoff o fyw neu beidio – yng nghanol y dref, yn y goedwig, yn y pwll dŵr, mewn ysgol, mewn ardal o goetir<br>Defnyddio stori 'Messy Magpie' i ddysgu sut glanhaodd y bioden ei hamgylchedd, gan ddysgu am bwysigrwydd cadw ein hamgylchedd yn lân, atal sbwriel, ac ailgylchu ein gwastraff. | Darnau arian pioden – defnyddio'r darnau arian gloyw y mae'r Bioden wedi'u casglu = cyfrif setiau drwy grwpio'r darnau arian fesul 2, 5 a 10,<br><br>Arddangos gwerth lle gan ddefnyddio'r darnau arian; paru'r darnau arian wedi'u rhifo i greu bondiau rhif i 10/20.<br>Arian pioden – defnyddio gwahanol gyfuniadau o ddarnau arian i dalu am eitemau wedi'u prisio allan o nyth drysor y Bioden. | **Datblygu'r Saesneg**<br><br>Nodi ansoddeiriau Saesneg i ddisgrifio Pioden – black, white, smooth, bird<br>Pioden = Magpie<br>Darnau arian y Bioden – eu cyfrif yn Saesneg |

| Cynllun Gwers y Bioden | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad:** | **Amser cyflenwi'r wers:** 1:10pm | | | | | | |
| **Oedran y plant:** 6/7 oed | **Nifer y plant:** 2 | | | **Hyd y sesiwn:** 40 munud | | | |
| **Maes Dysgu (Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen):** | **I, Ll a Ch** | DPaCh | DM | DS | GDB | DC orf f | CD |

**Amcan/ion Dysgu:**

- Gallu paru'r llun ffonig cywir â'r sŵn cywir
- Adnabod ffoneg yn fwyfwy hyderus a chyflym

| **Sgiliau o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:** | **Ystod o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:** |
|---|---|
| • Darpariaeth barhaus a gwell a gweithgareddau â ffocws yn yr amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored | • Ymarfer, datblygu a mireinio eu sgiliau ym mhob agwedd ar y ddarpariaeth, gan gynnwys darpariaeth barhaus, a thrwy bob Maes Dysgu |

**Cysylltiadau â Meysydd / Elfennau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:**

- Defnyddio cymorth sillafu fel matiau ffonig, cardiau fflach ac adnoddau eraill
- Siarad yn fanwl am bethau maen nhw wedi'u gwneuthur neu wneud, gan egluro'r broses

| **Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd:** | I, Ll a Ch | DPaCh | DM | DS | GDB | DCorff | DC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Adnoddau:** | **Gwahaniaethu: disgyblion MAT/ADY** |
|---|---|
| Wyau plastig y gellir eu llenwi (wyau Pioden) (Gêm Paru Wyau'r Wyddor) iPad yr ysgol i dynnu lluniau<br>Cardiau fflach ffonig a lluniau cyfatebol<br>2 flwch brown i'w defnyddio'n nyth<br>Lle awyr agored i guddio'r wyau<br>Bydd angen i'r plant wisgo'n briodol i fynd allan i'r awyr agored | Mae'r ddau ddisgybl sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd yn ddisgyblion ADY, byddant yn gweithio'n annibynnol a chan ddefnyddio eu gwybodaeth ffonig flaenorol y buom yn ei hymarfer mewn sesiynau Read Write Inc i gwblhau'r gweithgaredd. |

**Cynllun Manwl o'r Wers:**

**Cysylltiad â dysgu blaenorol y plant:**

Buom yn edrych ar ffoneg ac yn ei hymarfer yn ystod sesiynau Read Write Inc; mae'r ffoneg y byddant yn chwilio amdanynt ac yn eu cysylltu yn rhai y maent wedi'u gweld a'u hymarfer o'r blaen, felly bydd angen iddynt ddefnyddio eu gwybodaeth flaenorol i gwblhau'r gweithgaredd.

| | |
|---|---|
| **Hyd:**<br>5/10 munud | **Cyflwyniad:**<br>• Byddai'r gweithgaredd wedi'i osod allan yn flaenorol, a'r wyau eisoes ar wasgar ar hyd yr ardal. Eisteddwch y plant yn y cylch boncyffion, gofynnwch gwestiynau i gael deall eu hymwybyddiaeth ffonig, "pa synau y buom ni'n eu hymarfer yn ddiweddar? Beth allwch chi ei weld o'ch blaenau, beth ydych chi'n credu y byddwn ni'n ei wneud heddiw?"<br>• Gosodwch sail resymegol y gweithgaredd, "Pan oeddwn i'n cerdded i'r ysgol y bore yma, fe sylwais ar yr holl **wyau Pioden** hyn wedi torri! A ydych chi'n credu y gallem gydweithio i helpu'r **Bioden** i roi ei hwyau'n ôl at ei gilydd?". Yn gyntaf, bydd angen iddynt ddewis hanner wy o'u blychau 'nyth', edrych ar y llun a deall pa gerdyn llythyren ffonig y mae angen iddynt ei ganfod (e.e. Mynydd > M, Dinosor > D); eglurwch fod yr haneri wedi torri wedi'u cuddio mewn gwahanol fannau o gwmpas yr ardal ddysgu awyr agored a bydd angen iddynt ddychwelyd yr wy wedi'i drwsio i'r nyth cyn dod o hyd i'r llythyren nesaf. |
| **Hyd:**<br>30/35 munud | **Prif Weithgaredd:**<br>• Dewiswch hanner yr wy wedi torri o'r nyth, a chwiliwch am yr hanner arall. Ar ôl dod o hyd iddo, cysylltwch yr wy a'i rhoi'n ddiogel yn y nyth, dewis wy arall ac ailadrodd.<br>• Ni all y plentyn ond ddod yn ôl â'r hanner cyfatebol i'r wy a ddewisodd eisoes, ac ni chaiff 'gyfnewid' haneri wrth ddod o hyd iddynt.<br>• Tynnwch luniau o'r plant wrth iddynt chwilio am yr wyau i'w rhoi yn eu llyfrau Read Write Inc neu i'w defnyddio ar y bwrdd pwnc dysgu awyr agored.<br>• Gadewch i'r plant chwilio am yr wyau wedi torri yn annibynnol, gan eu cadw o fewn golwg a'r tu mewn i'r ardal ddysgu awyr agored; rhowch gymorth neu gliwiau os ydynt yn cael trafferth yn dod o hyd i hanner gyfatebol.<br>• Bydd pob plentyn yn chwilio am wahanol lythrennau ffonig, felly rhaid iddynt weithio'n annibynnol<br>• Pan fydd un plentyn wedi llwyddo i baru'r wyau, gallant gydweithio i helpu'r plentyn arall sy'n dal i chwilio i gysylltu ei wyau, gan arddangos y gallu i weithio'n annibynnol neu fel pâr |
| **Hyd:**<br>5/10 munud | **Sesiwn lawn (sicrhau dealltwriaeth):**<br>• Gosodwch yr holl wyau y maen nhw wedi llwyddo i'w cysylltu yng nghanol y cylch boncyffion, gofynnwch gwestiynau i weld sut maen nhw'n teimlo wedi cwblhau'r gweithgaredd, "beth fwynhaoch chi fwyaf am heddiw? Pam? A ydych chi'n hapus eich bod wedi trwsio'r wyau wedi torri? A oeddech chi'n hoffi gweithio y tu allan?"<br>Os oes amser, gallai'r plant guddio ychydig o'u hwyau ei gilydd a rasio ei gilydd i weld pwy all ganfod a thrwsio eu |

| | |
|---|---|
| | hwyau gyflymaf. |

**Asesiad: (e.e. Ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu), Adolygol (asesiad o ddysgu), Cwestiynau Allweddol i'w gofyn i'r disgyblion)**
Ffurfiannol - gofynnwch i'r plant ddweud y ffoneg ar yr wyau wedi torri, gan sicrhau eu bod yn eu hynganu'n gywir. A oes unrhyw rai sy'n rhoi trafferth iddynt eu hynganu? Os felly, parhewch i weithio arnynt mewn sesiynau yn y dyfodol. Pa mor gyflym ydyn nhw'n adnabod pa lythyren sy'n cyd-fynd â'r llun? A ydyn nhw'n paru'n hyderus ac yn gyflym? Neu'n paru rhai o'r haneri anghywir?
Cwestiynau Allweddol – beth sydd yn y llun, dywedwch e'n uchel, pa lythyren/lythrennau
sydd angen ichi chwilio amdanynt? A allwch chi glywed y sŵn ".." pan ddywedwch chi "…." ?
(e.e. WNG pan ddywedan nhw rhwng)
A oedd hi'n hawdd paru'r haneri wy cywir? Sut wnaethoch chi hynny? Pa ddulliau ddefnyddion nhw? (er mwyn bodloni 2il faes y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a restrir uchod, "Siarad yn fanwl am bethau maen nhw wedi'u gwneuthur neu wneud, gan egluro'r broses".

## Detholiadau o syniadau thematig wedi'u hegluro

**TGCh –**
Defnyddiwch wefan RSPB i gasglu ffeithiau am biod ac adar cyffredin eraill, creu cardiau fflach gan ddefnyddio'r wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod adar


**Darnau arian piod (Datblygiad Mathemategol)–**

Defnyddiwch y darnau arian gloyw y mae Pioden wedi'u casglu yn ei nyth ar gyfer amrywiaeth o sgiliau mathemategol, fel cyfrif setiau drwy grwpio'r darnau arian fesul 2, 5 a 10, arddangos gwerth lle gan ddefnyddio'r darnau arian, paru'r darnau arian wedi'u rhifo i greu bondiau rhif i 10/20

Magpie Making (Creative

**Gwneud Pioden (Datblygiad creadigol)**
Crëwch ddelwedd o bioden gan ddefnyddio templed gwag ac amrywiaeth o ddeunyddiau naturiol, wedi'u casglu yn yr awyr agored, fel plu a brigau, dail ac ati.

**Iaith a Chyfathrebu**




**Symud fel piod (Datblygiad corfforol) –**
Gan ddefnyddio'ch cyrff i gyd, symudwch fel pioden drwy ledu eich breichiau gymaint â phosibl yn adenydd, neidio fel petaech yn hedfan neu ddisgyn yn isel i'r ddaear i gasglu dail/brigau.
Defnyddiwch symudiadau pioden ynghyd â symudiadau anifeiliaid eraill a ymarferant ar hyn o bryd yn ystod Datblygiad Corfforol (cath hapus, cath ddig, naid cwningen) (datblygiad SEB).

**Cynllun Gwers 'Pioden' Geiriau Diflanedig**

**Dyddiad:** 20.11.2018; **Amser cyflenwi'r wers:** 10.00am

**Oedran y plant:** 5/6 oed **Nifer y plant:** 5 **Hyd y sesiwn:** 25 munud

**Maes Dysgu (Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen):** I, Ll a Ch; DPaCh; DM; DS; GDB; DCorff; DC

**Amcan/ion Dysgu:**

- Gallu adnabod a disgrifio pioden.
- Gallu ysgrifennu un ffaith am bioden ar daflen ffeithiau'r bioden.

**Medr o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:**

- Ysgrifennu geiriau, ymadroddion a brawddegau syml a darllen eu hymgeisiau eu hunain yn ôl.

**Ystod o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:**

- Mynegi eu hunain yn greadigol ac yn llawn dychymyg.

**Cysylltiadau â Meysydd / Elfennau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:**

- Ysgrifennu geiriau, ymadroddion a brawddegau syml a darllen eu hymgeisiau eu hunain yn ôl.
- Cyfathrebu'n bwrpasol mewn ysgrifennu e.e. gall gael ei gefnogi â llun.

**Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd:** I, Ll a Ch; DPaCh; DM; DS; GDB; DCorff; DC

**Adnoddau**:

- Glanhawyr pibell o liwiau llachar (mwydod)
- Twba plastig i'r mwydod (glanhawyr pibell)
- Llyfr Geiriau Diflanedig
- Ffeithiau am biod ar daflenni wedi'u lamineiddio
- Pensiliau
- Pensiliau lliw/creonau
- Taflenni ffeithiau pioden

**Gwahaniaethu: disgyblion MAT / ADY**

Dylai plant mwy galluog:

- Ysgrifennu brawddeg ddisgrifiadol am bioden yn annibynnol, gan ddefnyddio o leiaf un neu ddau ansoddair
- Defnyddio atalnodi gan gynnwys atalnodau llawn a phriflythrennau
- Tynnu llun manwl o bioden yn annibynnol

Efallai bydd plant llai galluog:

- Yn copïo eu ffaith oddi ar y cardiau fflach
- Angen cymorth wrth sillafu ac atalnodi






**Cynllun Manwl o'r Wers:**

(Gweithgaredd i Ddechrau) Dechreuwch drwy osod glanhawyr pibell o liwiau llachar (mwydod) o gwmpas y lle chwarae. Wedyn gofynnwch i'r plant i ymddwyn fel piod a hela am y mwydod. Mae'r gweithgaredd dechreuol hwn yn gyfle i gyflwyno'r plant i'r Bioden a chynhesu tra byddant allan yn y lle chwarae. Ar ôl i'r plant ddod o hyd i'r holl fwydod, arweiniwch hwy at ardal dawel e.e. y gornel ddarllen, lle bydd y plant a'r athro neu athrawes yn edrych ar lyfr Geiriau Diflanedig ac yn darllen y gerdd am biod. Ar ôl darllen y gerdd, gadewch i'r plant edrych ar y llun o'r bioden a gweld a ydyn nhw'n adnabod yr aderyn.

Treuliwch ychydig funudau yn edrych am biod yn yr awyr.

Dewch â'r plant i mewn i'r ystafell ddosbarth a darllen ffeithiau am biod iddynt; holwch a hoffai unrhyw rai o'r plant eu darllen nhw'n uchel i'r grŵp. Gofynnwch i'r plant ddewis ffaith i'w hysgrifennu'n annibynnol neu, os oes angen, ei chopïo o'r cerdyn ffeithiau. Ar ôl i'r plant ysgrifennu ffaith a thynnu llun ategol o bioden naill ai o'u cof neu drwy ddefnyddio llyfr Geiriau Diflanedig i'w hysbrydoli, gadewch i'r plant drafod y ffaith a ddewiswyd ganddynt a'r llun gyda'r plant eraill.

**Cysylltiad â dysgu blaenorol y plant:**

Cysylltiadau â gwersi llythrennedd blaenorol y plant yn yr ystafell ddosbarth, ysgrifennu brawddegau disgrifiadol a defnyddio atalnodi cywir pan fydd angen.

**Hyd:** 5 munud

**Cyflwyniad**:


- <u>Y Tu Allan</u> **–** Gofynnwch i'r plant esgus bod yn biod ac i bob un ddod o hyd i 3 glanhawr pibell o liwiau llachar (mwydod) sy'n cuddio yn y lle chwarae.


**Hyd**: 15 munud

**Y Prif Weithgaredd:**

- <u>Y Tu allan</u> Dangoswch lyfr Geiriau Diflanedig i'r plant, darllen y gerdd am y bioden i'r grŵp ac edrych ar y llun o'r bioden.
- Treuliwch ychydig funudau yn chwilio am biod yn yr awyr.
- Dewch â'r plant i mewn a chyflwyno taflen ffeithiau'r bioden. Darllenwch y ffeithiau am y bioden i'r grŵp, gan adael i'r plant ddewis un i'w nodi neu ddefnyddio eu ffaith eu hunain os ydynt yn gwybod un o'u taflen ffeithiau.
- Tynnwch lun o'r bioden gan ddefnyddio llun Geiriau Diflanedig o bioden i'ch ysbrydoli.

**Hyd:** 5 munud



**Sesiwn Lawn (sicrhau dealltwriaeth):**

- Edrych allan o'r ffenestr i weld a all y plant adnabod piod
- Darllen eu ffaith ddethol am biod i'r grŵp ac egluro pam y dewison nhw honno
- Dangos eu llun o bioden i'r grŵp ac egluro eu llun
- Gofynnwch i'r plant ailadrodd ffaith am y bioden
- Gofynnwch i'r plant ddisgrifio pioden

**Asesiad:** (e.e. Ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu), Adolygol (asesiad o ddysgu), Cwestiynau Allweddol i'w gofyn i'r disgyblion)

Cwestiynau allweddol:

- A wnaethoch chi fwynhau'r gweithgaredd hwn?
- A allwch chi ddisgrifio pioden?

**Lle ac Adnoddau**

Helfa Natur
Mesen
Concyr
Deilen fawr
Deilen fach
Brigyn



# Mesen

© Jackie Morris a Mererid Hopwood: 'Geiriau Diflanedig' (Macfarlane, Morris a Hopwood, 2019; Graffeg).

| Tywod / Padell Wydn | Chwarae Rôl | Cornel Lyfrau | Ardal ysgrifennu | Ardal ymchwilio | Awyr Agored | TGCh | Adeiladu | Ardal fathemateg | Ardal grefft | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Codi capanau Mes â gefeiliau bach<br>Ffrindiau mes | Pypedau pren – anifeiliaid yr Hydref | Llyfr stori Wil Wiwer | Bwrdd stori Wil Wiwer | Twba synhwyraidd mes | Chwarae â mes ar ramp<br>Tylluanod mes | Ffeil ffeithiau gwiwerod<br>Pethau sy'n dod o goed? | Torch fes<br>Cydbwyso mes | Rhwbiadau mes – archwilio patrymau<br>Cyfrif | Pypedau pren mes<br>Siglwyr mes | Cychod rasio mes |

Thema'r wythnos hon yw
**MESEN**

**Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**

**Didoli Llythrennau Mes**
**Gêm Paru'r Wyddor Mes**
**Côr-gân 5 Mesen Bach**
**Llyfr stori** Wil Wiwer
**Bwrdd stori** Wil Wiwer

**Llyfr stori 'the Lost acorns'**
**Gêm Ffoneg Mes a'r Dderwen – mes a llythrennau wedi'u hysgrifennu arnynt**

**Datblygiad corfforol**

**Chwarae â mes ar ramp / gêm gyfnewid yn casglu mes**
**Helfa chwilota mes**
**Codi capanau mes â gefeiliau bach**
**Cydbwyso Mes**
**Dilyn y Fesen**

**TGCh**

**Ffeil Ffeithiau Mesen – Ymchwil Ar-lein**
**Casglu synau Byd Natur – Recordiad iPad**
**Don't Hog the Hedge!**
**Anifeiliaid sy'n Gaeafgysgu – Ffeil Ffeithiau**
**Golygfa Coedwig yr Hydref – Chwarae Rôl**
**Recordiad iPad**
**Stop-symudiad gan ddefnyddio imotionapp – creu llun gan ddefnyddio mes**

**Datblygiad creadigol**

**Tylluanod Mes**
**Paentiadau Mes**
**Siglwyr Mes**
**Rholio mes â mwd / paent**
**Ffrindiau Mes**
**Daliwr Haul Mes**
**Crefft Mwclis Mes**
**Mes â llwch llachar**
**Torch Fes**
**Stampio â Chapanau Mes**
**Pypedau Pren Mes**

**Datblygu'r Saesneg**

**Geiriau allweddol yr hydref – Autumn, Squirrel, Red, Orange, Yellow**
**Geiriau allweddol i ddisgrifio'r Fesen – Big, Small, Brown, Smooth**
**Rhifo Mes – One, Two, Three, Four, Five**

# Cynllunio Thematig

| Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd | Datblygiad Mathemategol. | Datblygiad Personol a Chymdeithasol |
|---|---|---|
| Pethau sy'n dod o'r Coed?<br>Twba synhwyraidd mes – mes, llyfr Kevin Sherry "Acorns everywhere", gwiwerod<br>A ydy mes yn suddo neu'n arnofio?<br>Ymchwilio i Fes – O ble maen nhw'n dod? Sut olwg sydd arnyn nhw?<br>Ffeithiau Anhygoel am Fes – Trafodaeth amser cylch<br>Cychod rasio mes<br>'Dyn' ni yn mynd i Hela Gwiwer' – Taith Gerdded Natur<br>Helfa Dail yr Hydref<br>Cylch bywyd mesen | Gwneud Marciau Thema'r Hydref<br>Gêm gyfrif Bwydo'r Wiwer<br>Pwyso ac archwilio mes gan ddefnyddio mesur safonol ac ansafonol; ysgafnach - trymach<br>Cyfatebiaeth un ac un mes<br>Lliwio Hydrefol yn ôl Rhif<br>Adio a Thynnu<br>Gwneud siapiau â Mes - Cymesuredd<br>Didoli – gweithgaredd Mes Bach, Canolig a Mawr<br>Cardiau cyfrif clip Mes a Gwiwer<br>Matiau cyfrif gwiwer<br>Rhwbiadau Mes – Archwilio patrymau | Mes Menyn Cnau - Rysáit<br>Pypedau Pren – 'Don't Hog the Hedge!'<br>Coeden Deimladau/Garedigrwydd<br>Cegin Fwd Pastai Mes - Rysáit<br>Mygydau Chwarae Rôl Don't Hog the Hedge!<br>Caneuon a Rhigymau - 'Dail y Coed yn Cwympo i Lawr'<br>Golygfa Coedwig yr Hydref a Chardiau Cwestiwn – Chwarae Rôl |

# Gêm gyfrif
# 'Bwydo'r wiwer'

Adnoddau'r Gweithgaredd

- Basgedi
- Mes
- Sialc
- Gwiwerod Tegan

## Pam Mesen?

- Cysylltiadau â bywyd gwyllt – Mae plant yn ymarferol yn mwynhau ymgorffori anifeiliaid a natur yn eu dysgu!
  - Coed > Mes > Gwiwerod

## Cysylltiadau â'r Cyfnod Sylfaen:

- Maes Dysgu – Datblygiad Mathemategol
- Prif Fedr – Tasgau a heriau sy'n annog disgyblion i ddatrys problemau a thrafod.
- Ystod – Datblygu sgiliau mathemategol ymarferol mewn ystod o gyd-destunau.

-LlCC (2015)

## Deall Manteision y Gweithgaredd:

- Cyfle i wella sgiliau datrys problemau – (DM)
- ❖ Mae cwricwlwm Reggio Emilia yn pwysleisio meddwl creadigol, gan roi llawer o sylw i ddatrys problemau ac archwilio (MacBlain, 2018, t.90).
- Dysgu ymarferol - cinesthetig - (DCorff)
- Helpu i ddatblygu sgiliau echddygol manwl e.e. didoli a chasglu mes -
- ❖ Roedd Montessori yn gosod pwyslais cryf ar ddysgu synhwyraidd a sut mae hyn yn hwyluso arsylwadau a chanolbwyntio ymhlith plant (MacBlain, 2018, t.41).
- Hyrwyddo annibyniaeth ar ffurf I, Ll a Ch, trafodaeth amser cylch ac annog cwestiynu.
- ❖ Sgaffaldio cyfarwyddiadol/cylchfa datblygiad procsimol – yn ôl Keenan et al (2016), credai Vygotsky mai drwy ryngweithio cymdeithasol â phobl eraill fwy gwybodus yr oedd plant yn gallu caffael yr wybodaeth a'r sgiliau yr oedd diwylliant yn eu hystyried yn rhai pwysig.





<table>
<tr><th colspan="8">Mesen – Cynllun gwers ‘bwydo’r wiwer’</th></tr>
<tr><td colspan="2">Dyddiad: 08/01/19</td><td colspan="6">Amser cyflenwi’r wers: 10:00am</td></tr>
<tr><td>Oedran y plant: 5-6</td><td colspan="3">Nifer y plant: 5</td><td colspan="4">Hyd y sesiwn: 40 munud</td></tr>
<tr><td>Maes Dysgu (Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen):</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPa Ch</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DC orf f</td><td>DC</td></tr>
<tr><td colspan="8">Amcan/ion Dysgu:<br>• Ymarfer “cyfateb un ac un” a deall bod pob un gwrthrych sy’n cael ei gyfrif yn cynrychioli “un yn rhagor”.<br>• Gallu rhagfynegi pa rif sy’n dod nesaf gan adnabod rhifau.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Medr o Faes Dysgu’r Cyfnod Sylfaen:<br>• Tasgau a heriau sy’n annog datrys problemau a thrafod.</td><td colspan="6">Ystod o Faes Dysgu’r Cyfnod Sylfaen:<br>• Datblygu sgiliau mathemategol ymarferol mewn ystod o gyd-destunau.</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cysylltiadau â Meysydd / Elfennau’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:<br>Rhifedd - Defnyddio sgiliau rhif: Amcangyfrif a gwirio:<br>• Gwneud amcangyfrif synhwyrol o nifer o wrthrychau y gellir ei wirio drwy gyfrif</td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd:</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPaCh</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DCorff</td><td>DC</td></tr>
<tr><td colspan="2">Adnoddau: Basgedi, Mes, Sialc, Gwiwer Degan</td><td colspan="6">Gwahaniaethu: disgyblion MAT / ADY<br>Ychwanegu rhifyddeg sylfaenol – disgyblion MAT i ffurfio brawddegau adio a thynnu, fel, ‘Mae’r wiwer wedi bwyta 9 mesen ond mae wedi cael 3 yn rhagor. Sawl mesen y mae’r wiwer wedi’i bwyta’n awr?</td></tr>
</table>

| **Cynllun Manwl o'r Wers:** |
|---|
| Cysylltu â dysgu blaenorol y plant: Amser stori – 'Nuts to You!' gan Lois Ehlert, geiriau hydrefol allweddol, Côr-gan 5 Mesen Bach, ymarfer cyfateb un ac un. |
| Cyflwyniad: 10 munud<br>• Cynnal amser cylch awyr agored i drafod ac ailadrodd thema'r ystafell ddosbarth, sef Mesen.<br>• Tasg gyflym – helfa chwilota mes – Rhowch y dasg i'r plant gasglu cynifer o fes â phosibl yn yr ardal er mwyn cwblhau'r prif weithgaredd.<br>• Gwahoddwch y plant i osod eu mes o gwmpas perimedr ardal y gweithgaredd. Cyflwynwch y prif weithgaredd, gan sicrhau bod y plant yn deall y dasg. Gosodwch reolau clir ac effeithiol. |
| Prif Weithgaredd: 20 munud<br>• Gofynnwch i'r plant ysgrifennu'r rhifau 1-15 ar y ddaear â'r sialc a ddarparwyd. Dylid cwblhau hyn fel grŵp o 5. Rôl yr ymarferwr yw sgaffaldio'r dasg.<br>• Ar ôl ei chwblhau, dylai pob plentyn cael ei dro i ddewis rhif. Wedyn rhaid iddo archwilio'r ardal i gasglu'r nifer o fes sy'n cyfateb i'r rhif ar y ddaear.<br>• Wedi'u casglu, anogwch y plant i gyfri'r mes yn uchel i sicrhau bod ganddynt y nifer cywir. Anogwch gwestiynu yn ystod y gweithgaredd – A oes angen rhagor arnoch? Faint yn rhagor sydd eu hangen arnoch?<br>• Os yw'n gywir, gallant fwydo'r wiwer degan. |
| Sesiwn Lawn (sicrhau dealltwriaeth): 10 munud<br>• Cyflwynwch Feddwl- Paru- Rhannu - Gall y plant hawlio perchenogaeth ar eu dysgu drwy rannu eu meddyliau, yn unol â strwythur y prif weithgaredd. Gall yr ymarferwr asesu dealltwriaeth y plant o'r dasg yn anffurfiol.<br>• Pennwch gwestiynau allweddol i'w hystyried. |

**Asesiad:** (e.e. Ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu), Adolygol (asesiad o ddysgu),

Cwestiynau Allweddol i'w gofyn i'r disgyblion)

Ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu)- Meddwl- Paru – Rhannu

Cwestiynau allweddol i'w hystyried – Beth fwynhaoch chi fwyaf am y gweithgaredd? Pam? Pa ffeithiau allwch eu cofio am fes?




Enghraifft o ardal awyr agored a ddefnyddiwyd ar gyfer casglu ac enghraifft o daflen waith a ddefnyddiwyd. Os nad oedd yr eitemau ar gael yn y lle, gosodwyd rhai yn yr ardal i'r plant ddod o hyd iddynt, fel helfa drysor.

# Dant y Llew



© Jackie Morris a Mererid Hopwood: Geiriau Diflanedig (Macfarlane, Morris a Hopwood, 2019; Graffeg).

# Cynllunio Thematig

| Tywod / padell wydn | Chwarae rôl | Cornel lyfrau | Ardal ysgrifennu | Ardal ymchwilio | Awyr agored | TGCh | Adeiladu | Ardal fathemateg | Ardal grefft | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plannu hadau gyda phridd ac offer | Yn y siop flodau | Cerddi'r Gwanwyn | Hambwrdd ysgrifennu synhwyraidd y Gwanwyn | Arogli arogleuon blodau | 'Dyn ni yn mynd i hela dant y llew' | Rhannau o blanhigyn – ymchwil | Blociau Adeiladu – twbâu a chewyll | Adnabod patrymau blodau | Cacennau bach gŵp a dant y llew | Bwrdd dŵr synhwyraidd y gwanwyn |

**Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**

Amser cylch – Rhannau o Blanhigyn

Stori flodau ddilyniannol – Sut mae blodau'n tyfu

'The Dandelion Seed' -stori am gylch bywyd

'The Little Dandelion' – Cerdd

Archwilio a Disgrifio Hadau

Enwi Planhigion a Blodau – Cardiau Fflach

'When Spring Comes' gan Kevin Henkes – Llyfr stori

Thema'r wythnos hon yw

**DANT Y LLEW**

**Datblygiad creadigol**

Peintio â dant y llew a chwyth-beintio â dant y llew

Paentiadau swigod blodau

Toes modelu – Defnyddio blodau artiffisial i'w plannu yn y toes chwarae.

Mwclis blodau Tuswau o flodau papur sidan

Gludwaith o hadau blodau'r haul;

Mygydau/hetiau o flodau

Gwneud dalwyr haul â phetalau blodau

Edafu Dant y Llew / coronau dant y llew

**TGCh**

Creu PowerPoint Gwanwyn - iPad

'In the deep, dark, wood'- Bee-Bots

Y Pedwar Tymor – Cymharu ffotograffau a dynnwyd o Goed – iPad

'Leaf Explorer' – Bee-Bots

Defnyddio Photoshop i roi wynebau'r plant ar ddant y llew – wyneb dant y llew / corff llew – chwarae ar eiriau

Ymchwilio i ddant y llew ar y gliniaduron, teipio tair ffaith ac argraffu'r ddalen

Ffotograffau o gychod rasio dant y llew

**Datblygiad corfforol**

Blociau adeiladu – Defnyddio potiau blodau gwag o wahanol feintiau i greu tyrau

Gweithgaredd ymestyn – Dynwared blodyn yn tyfu o'r hedyn i amser blodeuo.

Blodau cerddorol / dawns dant y llew / Erlid dant y llew

Potel Synhwyraidd Blodau Gwyllt / Cychod Rasio Dant y Llew

**Datblygiad Mathemategol.**

Mesur dant y llew o wahanol faint gan ddefnyddio mesur safonol ac ansafonol

Blodau dot-i-ddot i'w dargopïo

Rhoi blodau yn nhrefn eu maint

Ras Cyfrif Dant y Llew

Cyfrif a Phlannu Hadau

Rhwbiadau Dail a Choesynnau

Adnabod Patrwm Blodau

Mesur Tyfiant Hedyn a'i roi ar Graff

**Datblygu'r Saesneg**

Enwi Blodau – Lily, Bluebell, Daffodil

Blodyn Teimladau – Happy. Sad. Angry

Enwi Anifeiliaid y Gwanwyn – Lamb, Chicks, Birds

Cân 1, 2,3 dandelion yn Saesneg

| | | |
|---|---|---|
| **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**<br>Blwch blodau dant y llew – Llenwi cynhwysydd â phridd. Ychwanegu hadau ac offer garddio<br>Gêm arogli arogleuon blodau<br>Cardiau adnabod planhigion / helfa liwiau / gwahaniaethau dant y llew ar wahanol adegau o'r flwyddyn<br>Dyrannu dant y llew – trafod gwahanol rannau o'r dant y llew<br>''Dyn ni yn mynd i hela Dant y Llew!'<br>Mae cwningod yn bwyta dant y llew – gwnewch lwybr iddynt ddod i 'ymweld' â'r ysgol.<br>Tyfu eich Dant y Llew eich hunain! Sut mae Planhigion yn Amsugno Dŵr – Arbrawf; Arsylwi Blodau | Hambwrdd Ysgrifennu Synhwyraidd y Gwanwyn – Rhifau Moron | **Datblygiad Personol a Chymdeithasol**<br>Yn y Siop Flodau – Chwarae Rôl<br>Garddwr Bach – Chwarae Rôl<br>Helfa flodau<br>Fy hoff flodyn<br>Caneuon a Rhigymau – 'Little seed', 'Dandelion', 'Growing Flowers'<br>Cawl Dant y Llew<br>Quality Flowers – 'This is Me'<br>Petalau personoliaeth – bydd gan bob petal ar lun dant y llew rywbeth wedi'i ysgrifennu arno am bersonoliaeth a diddordebau'r plentyn |

## Cynllun Gwers Dant y Llew 1

| Dyddiad: 08/01/19 | Amser cyflenwi'r wers: 10:00am | |
|---|---|---|
| Oedran y plant: 5-6 | Nifer y plant: 6 | Hyd y sesiwn: 40 munud |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Maes Dysgu (Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen): | I, Ll a Ch | DPaCh | DM | DS | GDB | DCorff | DC |

Amcan/ion Dysgu:

- Ymchwilio i'r cyfuniad o ddeunyddiau a ddefnyddiwyd i greu'r Cacennau Bach Gŵp a Dant y Llew yn ystod gweithgaredd awyr agored dychmygus (Trafodwch drwch, lliw, ansawdd).
- Cyflwynwch iaith ddisgrifiadol e.e. hylifol, gwlyb, trwchus, anystwyth/ sgwrs am goginio/labelu pethau o fyd natur e.e. dant y llew, glaswellt, petalau, coesyn, deilen

Medr o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:

- Archwilio ac arbrofi ag amrywiaeth o dechnegau a deunyddiau.

Ystod o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:

- Cymryd rhan mewn gwahanol fathau o chwarae ac amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu sbarduno gan y plentyn.

Cysylltiadau â Meysydd/Elfennau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:

Rhifedd – Defnyddio sgiliau mesur: Defnyddio unedau ansafonol i fesur:

- hyd, uchder a phellter
- pwysau/mas
- cynhwysedd

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd: | I, Ll a Ch | DPaCh | DM | DS | GDB | DCorff | DC |

**Adnoddau**:
Dant y Llew; Finegr Gwyn; Glaswellt; Twbâu; Llwyau; Hambyrddau Pobi; Blawd corn; Chwisgiau; Halen; Casys Cacennau Bach; Dŵr; Tuniau

Gwahaniaethu: disgyblion MAT / ADY

- Dysgu cydweithredol – MAT i sgaffaldio ADY yn ystod y gweithgaredd yn ôl yr angen, drwy roi cymorth ar lafar – yn ystod trafodaeth iaith ddisgrifiadol.
- MAT i ddefnyddio safonau ansafonol i fesur maint y cynhwysion a ddefnyddiwyd i wneud eu cacennau bach Gŵp a Dant y Llew.

<table>
<tr><th colspan="2">Cynllun Manwl o’r Wers:</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cysylltiad â dysgu blaenorol y plant: Trafodaethau amser cylch am flodau, fel Dant y Llew, Mesur dant y llew o wahanol feintiau, Caneuon a rhigymau, Cardiau adnabod planhigion.</td></tr>
<tr><td>Hyd: 10 munud</td><td>Cyflwyniad:<br>• Cynhaliwch amser cylch awyr agored i drafod ac ailadrodd thema’r ystafell ddosbarth, Dant y Llew.<br>• Casglwch a labelwch yr adnoddau sydd eu hangen i gwblhau’r gweithgaredd gyda’r plant – Dant y Llew, Glaswellt, Dŵr, Tuniau. (Mwyafrif yr adnoddau i’w paratoi ymlaen llaw gan yr ymarferwr).<br>• Gosod rheolau clir ac effeithiol a sicrhau bod y plant yn deall y prif weithgaredd.</td></tr>
<tr><td>Hyd: 20 munud</td><td>Prif Weithgaredd:<br>• Dylai’r plant ddewis eu hadnoddau eu hunain yn annibynnol, cyn i’r dasg ddechrau. Yna cynhelir arddangosiad cyflym i gadarnhau sut bydd y gweithgaredd yn cael ei gynnal.<br>• Gadewch i’r plant archwilio’r adnoddau a chreu eu fersiynau eu hunain o’r cacennau bach Gŵp a Dant y Llew. E.e. cyfrif niferoedd petalau dant y llew yn y rysáit<br>• Tra bo’r plant wrthi’n gwneud y gweithgaredd ymchwiliol, cynhaliwch drafodaeth anffurfiol am drwch, lliw ac ansawdd dant y llew a chacennau bach gŵp a dant y llew, gan annog iaith ddisgrifiadol. E.e. pa rannau sydd gan ddant y llew? Sut mae’n teimlo?<br>• Yn ystod 5 munud olaf y gweithgaredd, cofiwch ddarparu powlen o ddŵr i’r plant lanhau’r tuniau, twbâu a hambyrddau’n annibynnol. Cadarnhewch fod pob plentyn yn glanhau ei lanast ei hun neu’n cyfrannu at y gwaith glanhau.</td></tr>
<tr><td>Hyd: 10 munud</td><td>Sesiwn lawn (sicrhau dealltwriaeth):<br>• Myfyriwch ynghylch y prif weithgaredd gyda’r plant – Beth ydyn nhw wedi’i fwynhau fwyaf? Pam? A fyddent yn newid rhai elfennau? Beth/Pam?<br>• Sicrhau dealltwriaeth – defnyddio system goleuadau traffig gyda Chwestiynau Allweddol i bennu a oedd y plant wedi deall diben y gweithgaredd.</td></tr>
</table>

Asesu ar gyfer dysgu: Dylai cwestiynau allweddol gynnwys – Beth fwynhaoch chi fwyaf am y gweithgaredd? Pam? Pa ffeithiau allwch chi eu cofio am ddant y llew?

# Dant y llew – Cacennau bach Gŵp a dant y llew

Cysylltiadau â'r Cyfnod Sylfaen:

- Maes Dysgu - Datblygiad creadigol
- Prif Fedr – Archwilio ac arbrofi ag amrywiaeth o dechnegau a deunyddiau.
- Ystod – Cymryd rhan mewn gwahanol fathau o chwarae ac amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio, gan gynnwys y rheini a sbardunir gan y plentyn.

Adnoddau'r Gweithgaredd

- Dant y llew — Blawd corn
- Finegr Gwyn — Chwisgiau
- Glaswellt — Halen
- Twbâu — Casys cacennau
- Llwyau — Dŵr
- Hambyrddau Pobi — Tuniau







Pam Dant y Llew?

- Mae'r plant yn mwynhau darllen 'When spring comes' – roedd hwn yn anogaeth wrth ddewis y 'gair diflanedig'!
- Cyfle i gynhyrchu gweithgaredd creadigol, ymarferol.

**Tywysoges Dant y Llew – cynllun gwers 2**

| Dyddiad: 8 Hydref 2018 | Amser cyflenwi'r wers: 9:30am |
|---|---|
| Oedran y plant: 5-6 oed<br>Nifer y plant: 6 | Hyd y sesiwn: 40 munud |

| Maes Dysgu (Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen): | I, Ll a Ch | DPaCH | DM | DS | GDB | DCorff | DC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Amcan/ion Dysgu:

- Gallu gwneud eu coronau **DANT Y LLEW** eu hunain.
- Gallu gwneud tuswau **dant y llew** gan ddefnyddio paent.
- Gallu defnyddio eu sgiliau iaith a llythrennedd i ysgrifennu **cerdd dant y llew.**

| Medr o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen: | Ystod o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen: |
|---|---|
| • archwilio ac arbrofi ag amrywiaeth o dechnegau a deunyddiau<br>• gwneud dewisiadau wrth ddewis deunyddiau ac adnoddau | • cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu galluogi i weithio fel unigolion ac mewn grwpiau<br>• defnyddio ystod eang o adnoddau a symbyliadau |

Cysylltiadau â Meysydd / Elfennau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:

- copïo ac ysgrifennu llythrennau, geiriau ac ymadroddion
- ysgrifennu o'r chwith i'r dde

| Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd: | I, Ll a Ch | DPaCh | DM | DS | GDB | DCorff | DC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Adnoddau:** | **Gwahaniaethu: disgyblion MAT / ADY** |
|---|---|
| Coronau dant y llew – papur, glud, siswrn, darnau dant y llew, dail, pensiliau lliw (cynifer o ddeunyddiau naturiol â phosibl).<br>Tuswau dant y llew – dant y llew, paent a brwshys paent, ffiol blastig.<br>Cerddi dant y llew – templed cerdd a phensiliau (pensiliau lliw i addurno wedyn).<br><br>(Byddaf yn defnyddio'r ystafell gelf yn yr ysgol am fod digon o le yno ac mae'n fy ngalluogi i wahanu'r gwahanol weithgareddau'n gyfartal ar y byrddau). | Coronau dant y llew – bydd gan y disgyblion LlAT dempledi coron yn barod er mwyn iddynt ludo eu dant y llew arnynt a lliwio eu coron. Bydd gan ddisgyblion MAT dempled o goron a bydd angen iddynt ei dorri allan a'i addurno â dant y llew a phensiliau lliw.<br>Tuswau dant y llew – bydd gofyn i LlAT beintio eu dant y llew mewn unrhyw liw. Bydd gofyn i MAT greu dilyniant tusw â lliwiau penodol.<br>Cerddi dant y llew - bydd LlAT yn ateb cwestiynau amlddewis gan ddefnyddio'r gerdd. Bydd MAT yn cael diwedd y frawddeg ar goll mewn cerdd a bydd angen iddynt ei llenwi. |

| **Cynllun Manwl o'r Wers:** | |
|---|---|
| Cysylltu â dysgu blaenorol y plant: Mae'r pwnc y tymor hwn yn ymwneud â thosturi a theimlo wedi'ch croesawu yn yr ysgol. Cysylltiadau â gwers 'tywysoges dant y llew' oherwydd bydd gofyn iddynt greu pethau a fydd yn helpu eu ffrindiau i deimlo wedi'u croesawu yn ei pharti a bydd y plant yn dangos tosturi tuag at 'dywysoges dant y llew' am ei bod mewn trybini ac angen eu help arni. | |
| Hyd: 10 munud | Cyflwyniad:<br>1. Darllenwch stori gyda'r plant am 'dywysoges dant y llew' a'r drafferth mae'n ei chael gyda'i the parti arbennig. Mae ei helpwyr i gyd yn sâl, ac nid oes neb ganddi i'w helpu i wneud y coronau, y tuswau na'r cerddi hyfryd y byddai'n eu darllen yn uchel i'w ffrindiau.<br>2. Bydd rhywun yn cnocio ar y drws ac yn rhoi llythyr imi gan y 'dywysoges' yn dweud bod angen help y plant arni i achub ei the parti.<br>3. Byddaf yn gofyn i'r plant a ydynt am helpu ac yna gofyn sut gallem ei helpu.<br>4. Bydd y plant yn trafod beth i'w wneud nesaf ac yn llunio cynllun. Gallai hyn gynnwys casglu dant y llew, eu cyfrif, eu gosod yn nhrefn eu maint. |
| Hyd: 25 munud | Y Prif Weithgaredd:<br>5. Bydd tair ardal wedi'u gosod. Un i wneud coronau, un i beintio tuswau ac un ar gyfer cerddi dant y llew. Dangosir enghreifftiau o bob un ym mhob ardal.<br>6. Ar ôl i'r plant orffen mewn un ardal, gallant symud i'r ardal nesaf neu hepgor ardal os nad ydym am wneud hynny.<br>7. Ar ôl i'r holl blant orffen eu coronau, tuswau a cherddi, byddaf yn gofyn iddynt osod eu gwaith yn fy 'mlwch dosbarthu arbennig' i'w anfon at y dywysoges gan ddefnyddio cyfeiriad dosbarthu y byddant yn fy helpu i'w argraffu. |
| Hyd: 5 munud | Sesiwn lawn (sicrhau dealltwriaeth):<br>8. Cyn inni ei anfon, bydd y plant yn cael rhestr wirio o'r holl bethau a wnaethant i'r te parti a byddant yn paru ac yn rhannu'r gwaith o weithio drwy'r rhestr. |

<table>
<tr><th colspan="8">Cynllun Gwers 3 ‘Dant y Llew’ Geiriau Diflanedig.</th></tr>
<tr><td colspan="3">Dyddiad: 12/12/18.</td><td colspan="5">Amser cyflenwi’r wers: 10 a.m. Hyd: 30 munud.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Oedran y plant: 5/6- 7 oed (Blwyddyn 1/ 2)</td><td colspan="3">Nifer y plant: Grŵp o 4 - 6 o blant.</td><td colspan="3">Hyd y sesiwn: 30 munud.</td></tr>
<tr><td>Maes Dysgu (Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen):</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPa Ch</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DC orff</td><td>DC</td></tr>
<tr><td colspan="8">Amcan/ion Dysgu: Gallu adnabod cylch bywyd dant y llew.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Medr o Faes Dysgu’r Cyfnod Sylfaen:<ul><li>Disgrifio’r hyn maen nhw wedi’i ganfod a chynnig esboniadau syml.</li></ul></td><td colspan="5">Ystod o Faes Dysgu’r Cyfnod Sylfaen<ul><li>Adnabod gwahanol blanhigion sy’n byw yn yr amgylchedd awyr agored.</li><li>Adnabod yr effeithiau a gaiff y gwahanol dymhorau ar rai planhigion.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="8">Cysylltiadau â Meysydd / Elfennau’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:<ul><li>Rhifedd -</li><li>Llythrennedd -</li></ul></td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd:</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPaCh</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DCorff</td><td>DC</td></tr>
<tr><td colspan="3">Adnoddau:<br>Man awyr agored,<br>Cylch bywyd dant y llew, cardiau wedi’u lamineiddio sy’n gwneud y ddau lun mawr o ddant y llew, chwiban er mwyn i’r plant wybod pryd mae newid cyfeiriad eu teithio.</td><td colspan="5">Gwahaniaethu: disgyblion MAT / ADY<br>Mwy abl: efallai bydd angen llai o gymorth, gofynnwch i’r plant roi’r cylch bywyd mewn trefn ar eu pen eu hunain.<br>Llai abl: efallai bydd angen mwy o gymorth, gweithio mewn grwpiau mwy o faint i roi’r cylch bywyd yn ei drefn.</td></tr>
</table>

| Cynllun Manwl o'r Wers: | |
|---|---|
| **Cysylltiad â dysgu blaenorol y plant:** Lliwiau a siapiau yn Gymraeg, cylch bywyd dant y llew. | |
| **Hyd:**<br>• 10 munud | **Cyflwyniad:**<br>• Eisteddwch y plant mewn cylch y tu allan yn y man a ddarparwyd.<br>• Dangoswch lun i'r plant a gofyn iddynt beth maen nhw'n ei wybod am ddant y llew.<br>• Wedyn dangoswch i'r plant gylch bywyd dant y llew (gan ailadrodd o'r wers flaenorol)<br>• Rhowch y cardiau i'r plant a gofyn iddynt gydweithio i roi cylch bywyd dant y llew yn ôl i'w drefn gywir. |
| **Hyd:**<br>• 15 munud. | **Y Prif Weithgaredd**<br>• Eglurwch i'r plant ba weithgaredd y byddant yn ei wneud.<br>• Rhannwch y plant yn ddau grŵp.<br>• (Cardiau wedi'u cuddio ymlaen llaw) Mae gwahanol rannau o'r dant y llew wedi'u cuddio o gwmpas yr iard, rhaid i'r plant ddefnyddio gwahanol foddau teithio i ddod o hyd iddynt. Dechreuwch drwy sgipio, hercian, rhedeg, cerdded, neidio.<br>• Mae angen i'r plant ganfod yr holl gardiau wedi'u cuddio o gwmpas yr iard, er mwyn iddynt greu'r llun.<br>• Ar ôl i'r plant ganfod yr holl luniau, dewch â nhw'n ôl at y cylch.<br>• Gofynnwch i'r plant weithio yn eu grwpiau i greu'r llun mawr. Bydd gan un grŵp ddant y llew melyn a bydd gan y grŵp arall yr un gwyn.<br>• Bob tro bydd y chwiban yn chwythu, mae angen i'r plant newid eu modd teithio a'u cyfeiriad. |
| **Hyd:**<br>• 5 munud. | **Sesiwn lawn (sicrhau dealltwriaeth):**<br>• Dewch yn ôl at eich gilydd fel grŵp cyfan.<br>• Gofynnwch i'r plant am y gwahanol luniau a holwch pam mae un melyn ac un gwyn. (Gofynnwch am y lliwiau a'r siapau yn Saesneg i weld a all y plant gofio o'r adeg o'r blaen.)<br>• Gofynnwch i'r plant beth maent wedi'i ganfod o ddysgu am gylch bywyd dant y llew. |



# Concyr

**© Jackie Morris a Mererid Hopwood: Geiriau Diflanedig (Macfarlane, Morris a Hopwood,**

# Cynllunio Thematig

| Tywod / padell wydn | Chwarae rôl | Cornel lyfrau | Ardal ysgrifennu | Ardal ymchwilio | Awyr agored | TGCh | Adeiladu | Ardal fathemateg | Ardal grefft | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deunyddiau awyr agored, dail, creigiau, brigau a blodau. | Chwarae rôl canolfan arddio | Llyfr am fyd natur | Disgrifio lluniau o goncyrs ac ysgrifennu brawddeg amdanynt | Bydd angen i'r plant ganfod cynifer o goncyrs ag y gallant | Helfa drysor i ganfod concyrs | Defnyddio adnoddau ar-lein i dynnu llun concyrs ar y cyfrifiadur | | Gêm paru concyrs. | Defnyddio adnoddau i wneud crefftau concyr | Concyrs mewn dŵr |

### Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Blwch synhwyraidd – defnyddio geiriau disgrifio i nodi pa rai yw'r concyrs yn y blwch.**

**Cerdd acrostig gan ddefnyddio'r gair concyrs i lawr yr ochr.**

**Sillafu â choncyrs wedi'u peintio.**

**Darllen 'y Lindysyn Llwglyd Iawn' – peintio'r concyrs a'u rhoi ar gortyn – creu eu lindysyn llwglyd eu hunain.**

### Datblygiad corfforol

Helfa drysor o gwmpas yr ysgol yn chwilio am goncyrs.

Defnyddio gefeiliau bach/ gefelau, bydd rhaid i'r plant godi concyrs / deunyddiau naturiol a'u didoli i'r blwch cywir.

**Hambwrdd synhwyraidd gyda thywod – defnyddio concyrs i wneud marciau.**

**Ras concyr a llwy.**

**Bowlio â choncyrs.**

### Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

*Cael gwybod o ble ddaw concyrs a pham maen nhw'n cwympo o goed.*

***Casglu concyrs – mynd ar 'antur'.***

***Gwneud cregyn concyr i falwod.***

***Cegin fwd yn cynnwys concyrs, dail a moch y coed***

*Creu ardal chwarae rôl ditectif natur.*

## Thema'r wythnos hon yw
## CONCYRS

### TGCh

Ymchwilio i ffeithiau am goncyrs a chreu poster ffeithiau.

**Tynnu ffotograffau ar yr iPad o wahanol goncyrs a gasglwyd ganddynt a'u gwneud yn batrymau**

***Gwneud iMovie am goncyrs***

**Defnyddio ffotograffau a dynnwyd ar iPad i rewi ffoto o'r dosbarth**

**Gwneud llyfr stori am eich concyr gan ddefnyddio ap**

### Datblygu'r Saesneg

*Cyfrif yn Saesneg i 10 gan ddefnyddio'r concyrs i helpu.*

*Concer = Conker*

### Datblygiad creadigol

**Peintio llun drwy rolio concyrs.**

**Wynebau concyr – defnyddio llygaid simsan, wyneb hapus a gwallt**

**Creu poster am goncyrs.**

**Printio dail y gastanwydden gan ddefnyddio mwd, dŵr a phaent.**

**Defnyddio toes chwarae i greu concyrs a'r gastanwydden.**

### Datblygiad Mathemategol.

Defnyddio concyrs ar gyfer adio/tynnu.

**Trefnu concyrs yn ôl maint/lliw.**

**Concyrs wedi'u peintio i greu dilyniannau.**

**Creu deg llun castanwydden gwahanol nifer o rifau arnynt.**

**LIAT – i'w cwblhau hyd at bump. MAT – i'w cwblhau hyd at ddeg.**

**Mae'r plant yn ychwanegu 1 concyr bob tro nes bod 10 coeden ag 1,2,3,4,5,6,7,8,9,10 o goncyrs arnynt.**

### Datblygiad Personol a Chymdeithasol

**Gwneud breichledi cyfeillgarwch â choncyrs a chortyn**

Amser cylch:

Siarad am beth mae natur yn ei olygu iddynt a sut gallwn ddysgu gofalu am fyd natur.

| Cynllun Gwers – mabolgampau concyrs | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedran y plant: 5-6 oed | Nifer y plant: 6 | | | | | | |
| Maes Dysgu (Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen): | I, Ll a Ch | DPa Ch | DM | DS | GDB | DC orf f | DC |

Amcan/ion Dysgu:

- Gallu llawdrin **concyrs** mewn amryw weithgareddau corfforol
- Gallu dangos canolbwyntio a ffocws wrth gwblhau'r gweithgareddau

Medr o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:

- deall ac ymarfer amrywiaeth o ffyrdd o anfon, derbyn a theithio â chyfarpar bach
- gallu symud yn ddiogel â mwyfwy o reolaeth a chydsymud

Cysylltiadau â Meysydd/Elfennau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau ochr yn ochr ag eraill, gydag ychydig o ryngweithio. (Llythrennedd: Llefaredd: Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau)
- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i chwarae a gweithgareddau ystafell ddosbarth. (Rhifedd: Datblygu ymresymu rhifiadol: adnabod prosesau a chysylltiadau)

| Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd: | I, Ll a Ch | DPaCh | DM | DG | GDB | DCorff | DC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Adnoddau:

- Concyrs
- Pinnau bowlio (rhai bach)
- Llwyau bach
- Tiwbiau/pren/cardboard/plastig/gwellt/papur/selotep (cwrs rhwystrau)
- Magnetau/powlen ddŵr/cortyn/tiwbiau plastig
- Sialc gwyn (i farcio pa mor bell y taflwyd y concyrs ar y llawr)
- Bwrdd sialc (i gadw sgoriau o'r gemau)

| **Cynllun Manwl o'r Wers:** |
|---|
| Cysylltu â dysgu blaenorol y plant: mewn ABChI, mae'r plant yn dysgu sut mae gweithio'n rhan o dîm neu bâr. Bydd y gweithgaredd hwn yn helpu'r plant i adnabod buddion gweithio gydag eraill a'i fod yn gallu dwyn canlyniadau cadarnhaol. |
| Cyflwyniad:<br>1. Cyflwynwch y term 'mabolgampau' i drafodaeth grŵp a gweld beth mae'r plant eisoes yn ei wybod am y gair 'concyr' a gallant awgrymu beth ydyw, yn eu barn nhw. Ar ôl trafod, atgyfnerthwch yr hyn y maen nhw'n ei wybod.<br>2. Eglurwch i'r plant ein bod yn mynd i gael ein mabolgampau arbennig ein hunain – gan ddefnyddio concyrs! Pan fyddwch y tu allan, disgrifiwch bob ardal chwaraeon i'r plant ac egluro beth sy'n rhaid iddynt ei wneud. |
| Y Prif Weithgaredd:<br>3. Bydd y plant yn mynd o gwmpas yr iard mewn parau yn chwarae 'dal' â'r concyrs, yn cael ras concyr a llwy, yn bowlio â choncyrs, yn pysgota am goncyrs ac yn cael cystadleuaeth taflu concyrs (gosodwch y gorsafoedd)<br>4. Cadwch eu sgoriau ar fwrdd sialc wrth iddynt gwblhau pob gweithgaredd.<br>5. Ar y diwedd ar ôl i bawb orffen, byddant i gyd yn eu parau yn cyfri'r pwyntiau a gawsant (sgiliau mathemateg) ac yn adio sgôr iddynt eu hunain i weld pwy sydd wedi ennill. |
| 6. Sesiwn lawn (sicrhau dealltwriaeth): Eisteddwch y plant eto mewn cylch a thrafod gweithgareddau'r mabolgampau. Gofynnwch i'r plant beth oedd yn hawdd iddynt, beth oedd yn galed, sut oeddent yn teimlo wrth weithio mewn parau; pa nodweddion sy'n perthyn i goncyr? |
| **Asesiad:** (e.e. Ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu), Adolygol (asesiad o ddysgu), Cwestiynau Allweddol i'w gofyn i'r disgyblion)<br>Asesiad ffurfiannol – bydd y plant yn cael eu harsylwi am eu datblygiad creadigol, corfforol a llythrennedd ac iaith.<br>- I arsylwi'r plant yn defnyddio llythrennedd corfforol fel rholio, troelli, taflu.<br>Cwestiynau allweddol: Sawl pwynt ydych chi wedi'i ennill? Sut oeddech chi'n teimlo wrth gwblhau'r gweithgaredd hwn? Beth oedd eich hoff weithgaredd? At ba un mae'r concyr yn gweithio orau a pham? |



# Clychau'r gog

© Jackie Morris a Mererid Hopwood: Geiriau Diflanedig (Macfarlane, Morris a Hopwood, 2019; Graffeg).

# Cynllunio Thematig

| Tywod /padell wydn | Chwarae rôl | Cornel lyfrau | Ardal ysgrifennu | Ardal ymchwilio | Awyr agored | TGC | Adeiladu | Ardal mathemateg | Crefft | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Plannu hadau in yn y tywod | Siop flodau / canolfan arddio i chwarae rôl | Llyfrau am blannu | Disgrifio eich hoff flodyn – ysgrifennu brawddeg amdano | Plant i edrych yn y gwely blodau – beth yw'r rhannau o flodyn | Rhestr wirio blodau | Defnyddio adnoddau ar-lein i chwilio am glychau'r gog | | Cyfri sawl pwynt ar blodyn | Defnyddio adnoddau i wneud gludwaith clychau'r gog | Swynion blodau |

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Llyfr - the tiny seed**

**Geiriau disgrifiadol am glychau'r gog**

**Gwybod Rhannau o flodyn**

**Disgrifio lluniau o flodau i'ch partner - a allwch chi ddyfalu pa un? (defnyddio cardiau paru)**

## Datblygiad creadigol

**Printio â blodau**

Gwneud gludweithiau clychau'r gog – gan ddefnyddio deunyddiau naturiol eraill

Tynnu llun / paentio clychau'r gog

Gwneud clychau'r gog o ddeunyddiau ailgylchadwy e.e. rholiau papur tŷ bach a phapur newydd

## Datblygiad corfforol

Helfa drysor o gwmpas yr ysgol yn chwilio am flodau / cardiau blodau

Ras gyfnewid blodau – paru lluniau â'r enw cywir

Prosiectau plannu – hadau a bylbiau

Thema'r wythnos hon yw

Clychau'r gog

## TGCh

Ymchwilio i ffeithiau am glychau'r gog a chreu taflen ffeithiau.

**Tynnu lluniau ar yr iPad o glychau'r gog a blodau gwyllt eraill**

**Gwneud gludwaith gan ddefnyddio'r Ipad**

## Datblygiad Mathemategol

Mesur hyd coesyn clychau'r gog – defnyddio mesur ansafonol a mesur safonol

Plotio patrwm gan ddangos y gwahanol hydoedd

Edrych ar gymesuredd clychau'r gog

## Datblygu'r Saesneg

**Y lliwiau yn Saesneg - glas = blue, coch = red**

**Geiriau disgrifiadol i'r rhannau o flodyn = tall, short ac ati**

## Datblygiad Personol a Chymdeithasol

**Adnabod gwahanol flodau gwyllt mewn grwpiau**

**Plannu fel grŵp a phenderfynu beth i'w blannu a ble**

**Mae nodweddion arbennig ar wahanol flodau yn debyg i'r gwahaniaethau mewn pobl - amser cylch i sgwrsio**

## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Canfod sut mae blodau'n tyfu o hadau / bylbiau

Ym mha amgylchedd mae clychau'r gog yn tyfu?

Pa bryfed sy'n hoff o glychau'r gog?

Pam? Creu ardal chwarae rôl ditectif natur.

**Cynllun Gwers Geiriau Diflanedig**

**Dyddiad:** 22.11.2018 **Amser cyflenwi'r wers:** 10.00am

**Oedran y plant:** 5/6 oed **Nifer y plant:** 5 y grŵp **Hyd y sesiwn:** 40 munud

**Maes Dysgu (Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen):** I, Ll a Ch; DPaCh; DM; DS; GDB; DCorff; DC

**Amcan/ion Dysgu:**

- Gallu adnabod clychau'r gog ac enwi eu gwahanol rannau (e.e. blodyn, petalau, coesyn a bwlb)
- Gallu tynnu llun o glychau'r gog â sialc

**Medr o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:**

- Archwilio ac arbrofi ag amrywiaeth o dechnegau a deunyddiau

**Ystod o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:**

- Archwilio, ymchwilio a defnyddio'r amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored

**Cysylltiadau â Meysydd / Elfennau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:**

- Cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill a siarad am yr hyn y maent yn ei wneud
- Siarad am y pethau y maen nhw wedi'u gwneuthur neu eu gwneud, gan egluro'r broses

**Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd:** I, Ll a Ch; DPaCh; DM; DS; GDB; DCorff; DC

**Adnoddau**:

- Llyfr Geiriau Diflanedig
- Sialc lliwgar – (gwyrdd a glas ar gyfer clychau'r gog)
- Lluniau o glychau'r gog ar gerdyn wedi'i lamineiddio

**Gwahaniaethu: disgyblion MAT / ADY**

**Plant mwy galluog**

- Gallu enwi holl rannau'r blodyn
- Tynnu llun manwl o glychau'r gog

- Labelu llun o glychau'r gog yn gywir

**Plant llai galluog**

- Gwneud marciau â'r sialc yn hytrach na lluniau manwl o glychau'r gog
- Efallai bydd angen eu hannog wrth ddisgrifio clychau'r gog â geiriau fel bwlb a gwreiddiau

**Cynllun Manwl o'r Wers:**

I ddechrau'r wers, cerddwch y plant o gwmpas y lle chwarae ac edrych am flodau. Ar ôl dod o hyd i flodau, gofynnwch i'r plant enwi gwahanol rannau'r blodau, er enghraifft bwlb/hedyn, petal, gwreiddiau ac ati. Tywyswch y plant i fan tawel a darllen cerdd Geiriau Diflanedig am 'glychau'r gog' i'r grŵp gan ddangos y llun iddynt ar y dudalen nesaf. Dangoswch y ffotograffau o glychau'r gog i'r grŵp a gofyn i'r plant a allant ddisgrifio sut olwg sydd arnynt a pha rannau o glychau'r gog y gallant eu gweld. Pan fydd y plant yn barod, rhowch sialc iddynt a gofyn iddynt dynnu llun o glychau'r gog ar y llawr gan gofio defnyddio'r geiriau y soniasant amdanynt o'r blaen fel gwreiddiau, bwlb a choesyn. Tra bydd y plant yn tynnu llun, trafodwch sut mae'r blodau'n tyfu, a oes angen dŵr arnynt? Ble mae'r gwreiddiau? A oes unrhyw un wedi plannu hadau neu fylbiau o'r blaen? Anogwch y plant i fyfyrio ynghylch adegau y maent wedi helpu i blannu blodau yn y gwelyau blodau y llynedd.

Anogwch y grŵp i edrych ar luniau pawb a thrafod beth maen nhw'n ei hoffi am eu lluniau ei gilydd. Gadewch i'r plant ddisgrifio eu llun ac anogwch y plant i gyfeirio at rannau'r blodyn.

Treuliwch ychydig funudau yn edrych am biod yn yr awyr.

**Cysylltiad â dysgu blaenorol y plant:**

- Wedi plannu blodau mewn potiau planhigion o gwmpas lle chwarae'r plant iau y llynedd
- Bod yn greadigol â deunyddiau mewn gwersi, gan ddefnyddio adnoddau llai cyfarwydd i greu eu gwaith celf gyda rhai fel golosg a phasteli olew

**Hyd:** 5 munud **Cyflwyniad**:

- Cerddwch o gwmpas y lle chwarae a dod o hyd i flodau, gofynnwch i'r plant enwi rhannau'r blodyn (bwlb/hedyn, gwreiddiau, coesyn, petal, deilen, blodyn)

**Hyd**: 10 munud **Y Prif Weithgaredd:**

- Darllenwch gerdd Clychau'r Gog o lyfr Geiriau Diflanedig i'r grŵp a dangos y llun o glychau'r gog ar y dudalen nesaf
- Dangoswch luniau clychau'r gog a gofyn i'r plant ddisgrifio'r lluniau e.e. lliwiau, siapau, uchder
- Tynnwch luniau â sialc o glychau'r gog ar lawr y lle chwarae – gan dynnu llun yr holl rannau o'r blodyn a enwodd y plant
- Trafodwch gyda'r plant sut mae blodau'n tyfu

**Hyd: Sesiwn Lawn (sicrhau dealltwriaeth):** Anogwch y plant i edrych ar eu lluniau ei gilydd – 2 seren a dymuniad

Rhannu mewn parau – gofynnwch i'r plant egluro eu llun i'w partner – gan gyfeirio at wahanol rannau clychau'r gog.

**Asesiad: Ffurfiannol – 2 seren a dymuniad**

Enwch dair rhan o flodyn y gallwch eu cofio; pa eiriau y byddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio eich clychau'r gog?

**Y lluniau gorffenedig o glychau'r gog...**







<table>
<tr><td colspan="8">Cynllun Gwers 2 Clychau'r Gog</td></tr>
<tr><td>Oedran y plant: 5 – 6 oed</td><td colspan="3">Nifer y plant: 6</td><td colspan="4">Hyd y sesiwn: 40 munud</td></tr>
<tr><td>Maes Dysgu (Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen):</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPaCh</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DC orff</td><td>DC</td></tr>
<tr><td colspan="8">Amcan/ion Dysgu:<br>• Gallu defnyddio sgiliau datrys problemau a gwahaniaethu gweledol i adnabod gwahanol eitemau<br>• Gallu chwilio yn yr awyr agored i ddod o hyd i eitemau natur sy'n cyfateb a'u didoli'n gywir<br>• Adnabod y nifer cywir o eitemau i gyfateb i bob rhif</td></tr>
<tr><td>Medr o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:<br>• Didoli a dosbarthu gwrthrychau gan ddefnyddio maen prawf penodol</td><td colspan="7">Ystod o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:<br>• Cael profiad o amgylchedd sy'n gyfoethog yn fathemategol sy'n eu galluogi i archwilio a datblygu cysyniadau ac iaith fathemategol<br>• Ymchwilio i amgylcheddau dan do ac awyr agored, gan gynnwys hefyd amodau naturiol wrth iddynt godi</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cysylltiadau â Meysydd / Elfennau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:<br>• Gofyn am gymorth pan fydd ei angen<br>• Siarad am bethau a wnaethant, gan ychwanegu ychydig o ddisgrifiad<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau ochr yn ochr ag eraill, gydag ychydig o ryngweithio<br>• Adnabod camau i gwblhau'r dasg neu gael ateb<br>• Dewis a defnyddio technegau a ffeithiau rhif perthnasol i'w defnyddio<br>• Adnabod ac ailadrodd tri phatrwm a dilyniant lliw/gwrthrychau</td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd:</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPaCh</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DCorff</td><td>DC</td></tr>
<tr><td>Adnoddau:<br>• Ardal awyr agored<br>• Sialc lliw<br>• Eitemau natur, gwahanol flodau ac eitemau a gasglwyd gan y plant<br>• Cardiau / conau<br>• Cardiau llun blodau</td><td colspan="7">Gwahaniaethu: disgyblion MAT / ADY<br>Disgyblion ADY -<br>• Gosodwch wrthrychau penodol allan iddynt yn barod sy'n uniongyrchol gysylltiedig â lliw penodol, gan eu galluogi i adnabod y lliwiau.<br>Disgyblion MAT -<br>• Rhowch y cyfle iddynt ddosbarthu eitemau a allai fod o wahanol siâp a maint fel yr un lliw o ddail, ond eu bod o wahanol feintiau. Hefyd cyflwynwch eiriau fel golau, tywyll, amlwg a lliwgar. Rhowch y cyfle iddynt ddefnyddio geiriau disgrifiadol newydd.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">Cynllun Manwl o’r Wers:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cysylltu â dysgu blaenorol y plant:<br>O’r blaen, byddai’r plant wedi cael gwers fathemateg yn trafod beth yw didoli a sut mae didoli gwahanol eitemau. Hefyd, bydd gan y plant ddealltwriaeth o’r gwahanol fathau o flodau y gellir eu canfod y tu allan yn ardal gardd yr ysgol. Mae hyn i’w gwneud yn ymwybodol o’r hyn y gallant ddod ar ei draws ac am beth i chwilio a sut mae adnabod blodau e.e. clychau’r gog.</td></tr>
<tr><td>Hyd: 10 munud</td><td>Cyflwyniad:<ul><li>Bydd y gweithgaredd hwn yn cael ei osod y tu allan yn ardal yr ardd ar y llawr carreg. Sicrhewch fod pob darn o’r llawr wedi’i liwio mewn gwahanol liw yn barod i’r plant ddechrau, defnyddiwch sialc neu gardiau llun / conau / smotiau. Cyn mynd â’r plant allan, bydd y plant yn gwybod beth a ddisgwylir ohonynt. Bydd rhaid iddynt gydweithio i ddod o hyd i eitemau a’u didoli i’r blwch lliw cywir.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Hyd: 25 munud</td><td>Prif Weithgaredd:<ul><li>Bydd y plant yn mynd y tu allan yn barod i ddechrau’r gweithgaredd didoli lliwiau.</li><li>Bydd y plant yn cael y cyfle i fynd o gwmpas yr ardd a dod o hyd i ddetholiad o flodau a phlanhigion i edrych arnynt ac iddynt eu defnyddio yn y dasg. Paratowch gardiau llun o’r blodau fel nad yw’r plant yn tynnu’r blodau ond yn gallu dewis y cerdyn llun cywir</li><li>Siaradwch am holl wahanol liwiau’r blodau a ganfuwyd, a gweld a oes unrhyw rai ohonynt yn cyfateb i liw’r enfys.</li><li>Nawr bydd rhaid i’r plant ddidoli blodyn o bob lliw (cerdyn llun) i’r blwch cywir.</li></ul><ul><li>Gallwch eu hannog drwy holi a ydy rhai lliwiau’n haws eu canfod nag eraill? Pa liw blodyn ydych chi wedi’i ganfod fwyaf? Pa liw yw hoff liw’r plentyn/ A ydyn nhw wedi dod o hyd i glychau’r gog o gwbl? A allant eu disgrifio?</li></ul></td></tr>
<tr><td>Hyd: 5 munud</td><td>Sesiwn lawn (sicrhau dealltwriaeth):<ul><li>Ar ôl i’r holl eitemau gael eu didoli i bob bocs lliw, ewch drwy’r holl eitemau a roddwyd yn y blwch a thrafod a yw’n gywir. Mae hyn yn rhoi’r cyfle i’r plant rannu eu barn.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="2">Asesiad: (e.e. Ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu), Adolygol (asesiad o ddysgu), Cwestiynau Allweddol i’w gofyn i’r disgyblion)<br>Yn ystod y sesiwn, defnyddiwch gwestiynau penagored fel sut allwch chi ddosbarthu gwrthrychau? Pam roesoch chi wrthrychau mewn categori penodol? Sawl peth sydd ym mhob categori? Allwch chi eu cyfrif? Beth allwch chi ei gofio am glychau’r gog? Siâp? Lliw? Strwythur?</td></tr>
</table>



# Gwiber

© Jackie Morris a Mererid Hopwood: Geiriau Diflanedig (Macfarlane, Morris a Hopwood, 2019; Graffeg).

# Cynllunio Thematig

| Tywod/ padell wydn | Chwarae rôl | Cornel lyfrau | Ardal ysgrifennu | Ardal ymchwilio | Awyr Agored | TGCh | Adeiladu | Ardal fathemateg | Ardal grefft | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynefinoedd gwiber | | Llyfr stori am nadroedd | Ysgrifennu ffeithiau am wiberod | Ymchwilio i batrymau gwiber | Patrymau gwiber mewn sialc | Ymchwilio i ffeithiau gwiber | Defnyddio deunyddiau naturiol adeiladu gwiber | Cyfrif a phatrymau | Gludwaith/printio â mwd | Cynefin gwiber |

| Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu | Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd | Thema'r wythnos hon yw | Datblygiad creadigol | Datblygu'r Saesneg |
|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno'r gair Gwiber.<br>Beth wyddoch chi? A allan nhw ddisgrifio nodweddion ar wiber?<br>Llyfr stori am nadroedd<br>Defnyddio ffonem 's' fel neidr a dewis geiriau 's'<br>Teimladau am wiberod | Ble mae gwiberod yn byw?<br>Beth maen nhw'n ei fwyta?<br>Gwneud cynefin gwiber<br>Defnyddio'r wybodaeth hon mewn ffeil ffeithiau | **GWIBER** | Defnyddio deunyddiau naturiol i greu patrymau gwiber<br>Meddwl am batrymau sy'n ailadrodd<br>Printio gwiberod â mwd gan ddefnyddio brigau ar hyd darn hir o bapur wal<br>Gwneud gwiberod o glai a pheintio patrymau arnynt<br>Gwneud patrymau gwiber â sialc | Geiriau hydrefol allweddol –Autumn, Squirrel, Red, Orange, Yellow<br><br>Geiriau allweddol (yn Saesneg ) i ddisgrifio Gwiberod – brown; long; smooth |

| Datblygiad corfforol | TGCh | Datblygiad Mathemategol. | Datblygiad Personol a Chymdeithasol |
|---|---|---|---|
| Gwneud gwahanol batrymau gwiber â sialc yn y lle chwarae<br>Sut mae gwiberod yn symud?<br>Creu patrymau â'u cyrff eu hunain<br>Gwneud gwiberod o blastisin / toes chwarae (SEM)<br>Edafu gleiniau ar lanhawyr pibell i greu neidr batrymog. | Ffeil Ffeithiau<br>Gwiberod – Ymchwil Ar-lein<br>Creu patrymau gwiber gan ddefnyddio 'Paint' ar-lein, gan gynnwys gwahanol liwiau a phatrymau. | Didoli a dosbarthu gwrthrychau patrwm a di-batrwm<br>Mesur gwahanol wiberod a'u cymharu<br>Defnyddio ciwbiau 'unifix' i fesur pob gwiber a'u rhoi yn eu trefn, o'r byrraf i'r hiraf<br>Gall disgyblion MAT fesur delweddau / lluniau o wiberod gan ddefnyddio mesur safonol – neu fesur ar ôl cael yr wybodaeth o'r ffeil ffeithiau a nodi hydoedd mewn sialc ar y llawr<br>Edrych ar batrymau, ailadrodd a chymesuredd | Adeiladu gwiber o wahanol rannau sydd ar wasgar o gwmpas y lle chwarae, pen, corff, tafod, cynffon – gweithio fel tîm<br>Beth yw peryglon gwiberod? Sut ydyn ni'n cymryd gofal o gwmpas gwiberod?<br>Pam mae angen inni ofalu amdanynt?<br>Mae patrymau gwiber yn wahanol, sut mae hyn yn debyg mewn pobl? |

<table>
<tr><th colspan="8">Cynllun Gwers – Patrymau<br>Gwiber</th></tr>
<tr><td colspan="4">Dyddiad: 22 Tachwedd</td><td colspan="4">Amser cyflenwi’r wers: 1:30pm</td></tr>
<tr><td colspan="2">Oedran y plant: 5 a 6</td><td colspan="3">Nifer y plant: 4</td><td colspan="3">Hyd y sesiwn: 40 munud</td></tr>
<tr><td>Maes Dysgu (Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen):</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPa Ch</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DCorff</td><td>DC</td></tr>
<tr><td colspan="8"><u>Amcan/ion Dysgu:</u><br>• Gallu deall ffeithiau allweddol am wiber<br>• Gallu defnyddio sgiliau echddygol manwl i greu patrymau ailadrodd igam-ogam fel gwiber</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Medr o Faes Dysgu’r Cyfnod Sylfaen:</u><br>• Datblygu sgiliau llawdrin manwl<br>• Datblygu’r synhwyrau, dychymyg a chreadigrwydd</td><td colspan="4"><u>Ystod o Faes Dysgu’r Cyfnod Sylfaen:</u><br>• Gallu gweithio ar eu pen eu hunain ac mewn parau ac mewn grwpiau bach<br>• Archwilio ystod eang o symbyliadau</td></tr>
<tr><td colspan="8"><u>Cysylltiadau â Meysydd/Elfennau’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:</u><br>• Llefaredd Maes Un – gwrando ar farn a syniadau eraill ac ymateb iddynt<br>• Llythrennedd Maes Dau - defnyddio ystod o strategaethau darllen priodol i wneud synnwyr o destunau<br>• Llythrennedd Maes Dau – dod i ddeall gwybodaeth anghyfarwydd</td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd:</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPaCh</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DCorff</td><td>DC</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adnoddau:</u><br>• Ardal awyr agored ddiogel<br>• Sialc pinc, glas a melyn<br>• Ffeithiau allweddol am wiberod<br>• 1 bwrdd gwyn a phen.</td><td colspan="4"><u>Gwahaniaethu: disgyblion MAT/ADY</u><br>MAT – Creu eu patrymau ailadroddus eu hunain ag amrywiaeth o wahanol liwiau. ADY – Parhau patrymau ailadroddus ag un neu ddau liw yn unig.</td></tr>
</table>

**<u>Cynllun Manwl o’r Wers:</u>**

Bydd y wers yn dechrau’r tu allan, lle byddaf yn siarad â’r plant am wiberod. Yn gyntaf, byddaf yn gofyn i’r plant a ydynt yn gwybod unrhyw beth am wiberod yn barod. Wedyn, byddaf yn egluro beth yw gwiber a sut olwg sydd arni. Yna byddaf yn dweud wrth y plant fod gennyf wyth ffaith am wiberod wedi’u cuddio o gwmpas yr ardal awyr agored. Yna, byddaf yn gofyn i’r plant am ddod o hyd i’r ffeithiau, gan geisio dod o hyd i ddwy ffaith yr un ar y mwyaf. Ar ôl i’r plant wneud hyn, byddaf yn gofyn a allant ddarllen i’w partner beth mae eu ffeithiau’n ei ddweud. Yna, byddwn yn eu trafod fel grŵp gydag esboniad ychwanegol gennyf fi. Byddwn yn cerdded wedyn draw i ochr goncrit yr ardal awyr agored, lle byddaf wedi tynnu amlinelliad o wiberod ymlaen llaw. Byddaf yn gofyn wedyn i’r plant a allant greu ychydig o batrymau igam-ogam fel gwiberod ar eu gwiberod gan ddefnyddio gwahanol liwiau sialc. Cyn iddynt ddechrau, byddaf yn dangos enghraifft i’r plant o batrwm igam-ogam ar fy mwrdd gwyn. I’r rhai llai galluog, byddaf yn rhoi dau liw o sialc yn unig, ac yn dechrau eu patrwm igam-ogam iddynt. I’r rhai mwy galluog, byddaf yn rhoi dewis o dri lliw sialc i’r plant, gan ofyn iddynt ddechrau eu patrwm ailadroddus igam-ogan yn annibynnol. Ar ôl i’r plant gwblhau hyn, byddaf yn dechrau holi i weld a ydynt wedi deall ac wedi cael unrhyw wybodaeth newydd o’r gweithgaredd hwn. Byddaf yn defnyddio cwestiynau allweddol i wneud hyn, fel “Pa sŵn y mae gwiber yn ei wneud?”.

<u>Cysylltu â dysgu blaenorol y plant:</u>

Creu patrwm ailadroddus â gwahanol liwiau.

| | |
|---|---|
| Hyd: 10 munud | <u>Cyflwyniad:</u><br>Cyflwynwch i’r plant beth yw gwiber a holi a ydynt wedi gweld neu glywed y gair ‘gwiber’ o’r blaen. Eglurwch i’r plant fod wyth gwahanol ffaith am wiber wedi’u cuddio yn yr ardal awyr agored. Gofynnwch i’r plant fynd i ddod o hyd i ddwy yr un. |
| Hyd: 25 munud | <u>Prif Weithgaredd:</u><br>Tynnwch luniau gwiberod ar y llawr a gofyn i’r plant a allant greu eu patrymau igam-ogam eu hunain â’r sialciau lliw. Wedyn gofynnwch i’r plant osod eu ffeithiau gwiber o gwmpas y lluniau o’r gwiberod. |
| Hyd: 5 munud | <u>Sesiwn Lawn (sicrhau dealltwriaeth):</u><br>Defnyddiwch gwestiynau allweddol i weld a ydynt wedi deall y gweithgaredd ac a allant gofio unrhyw rai o’r ffeithiau allweddol am wiberod. |

<u>Asesiad: (e.e. Ffurfiannol (asesu ar gyfer dysgu), Adolygol (asesiad o ddysgu),</u>
<u>Cwestiynau Allweddol i’w gofyn i’r disgyblion)</u>

Defnyddiwch gwestiynau allweddol i sicrhau bod y plant wedi deall y gweithgaredd.

Pa batrymau sydd gan wiberod ar eu croen?
Pa sŵn y mae gwiber yn ei wneud?
Ble mae gwiberod yn byw?
Pa sŵn y mae gwiber yn ei wneud?












**Patrymau gwiber**



# Glas y dorlan

© Jackie Morris a Mererid Hopwood: Geiriau Diflanedig (Macfarlane, Morris a Hopwood, 2019; Graffeg).

# Cynllunio Thematig

| Tywod / padell wydn | Chwarae rôl | Cornel lyfrau | Ardal ysgrifennu | Ardal ymchwilio | Awyr agored | TGCh | Adeiladu | Ardal fathemateg | Ardal grefft | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhoi delweddau glas y dorlan yn eu trefn yn ôl maint | Pypeda u glas y dorlan | Llyfrau adar | Geiriau disgrifiadol mewn hambwrdd llwch llachar | Hyd plu | Cynefinoedd glas y dorlan | Fideo o las y dorlan | Glas y dorlan o Lego | Niferoedd glas y dorlan | Glas y dorlan o does chwarae / papur sidan | Pysgot a am bysgod |

Thema'r wythnos hon yw

**Glas y dorlan**

**Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**

**Geiriau disgrifiadol am las y dorlan – defnyddio map swigod**
**Disgyblion MAT i ddefnyddio'r geiriau a'u rhoi mewn brawddegau**
**Nodweddion ar las y dorlan – llyfrau adar**
**Defnyddio gwahanol gyfryngau i ysgrifennu'r geiriau - tywod/ llwch llachar/ pridd**
**Adeiladu ffeil ffeithiau am las y dorlan:**
https://easyscienceforkids.com/all-about-kingfishers/

**Datblygiad corfforol**

**Plant i ddychmygu mai aderyn ydyn nhw – yn hedfan drwy'r awyr. Cyflym? Araf? Uchel? Isel? Chwarae cerddoriaeth – annog y plant i ddychmygu eu bod ar siwrnai? Beth allan nhw ei weld?**
**Pegio delweddau o las y dorlan ar lein ddillad (SEM/ gafael gefail: gweithgaredd mathemateg)**

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

**Ble mae glas y dorlan yn byw? Beth maen nhw'n ei fwyta?**
**Gwneud cynefinoedd i las y dorlan**
**Creu gwe fwyd / cadwyn fwyd...**
**Ffeil ffeithiau ar Las y Dorlan**

**TGCh**

**Defnyddio'r ap Paint i greu eich glas y dorlan eich hun**
**Chwilio am glip fideo o las y dorlan yn hedfan**
**Ymchwilio i ffeithiau allweddol am Las y Dorlan a'u defnyddio mewn ffeil ffeithiau**

**Datblygiad Mathemategol**

**Tynnu ac adio drwy ddefnyddio lluniau o las y dorlan. Eu pegio ar lein ddillad a gwneud symiau 3+ 5=; 5-3=**

**Datblygiad creadigol**

Gwneud gludwaith â deunyddiau naturiol
Defnyddio papur sidan ar gyfer gludwaith y tu mewn
Glas y dorlan o does chwarae/clai

**Datblygu'r Saesneg**

**Geiriau disgrifiadol am las y dorlan: Glas – Blue; Pert – Pretty.**
**Creu brawddegau – I like kingfishers.**
**Kingfishers live in the ……**

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

Pam mas glas y dorlan yn bwysig? Pam ddylem ofalu amdanynt?
Pam maen nhw'n arbennig?
Sut maen nhw'n byw fel teulu?
Sut mae hynny'n debyg i bobl?
Beth yw eich hoff beth am las y dorlan?

<table>
<tr><th colspan="8">Cynllun gwers - Gwneud Gludwaith<br>Glas y Dorlan</th></tr>
<tr><td colspan="4">Dyddiad: 21 Tachwedd</td><td colspan="4">Amser cyflenwi'r wers: 1:30pm</td></tr>
<tr><td colspan="2">Oedran y plant: 5 / 6/ 7.</td><td colspan="3">Nifer y plant: 4</td><td colspan="3">Hyd y sesiwn: 40 m</td></tr>
<tr><td>Maes Dysgu (Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen):</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPaCh</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DC orf f</td><td>DC</td></tr>
<tr><td colspan="8"><u>Amcan/ion Dysgu:</u><ul><li>Gallu adnabod glas y dorlan a deall ffeithiau allweddol fel ble maen nhw'n byw a beth maen nhw'n ei fwyta.</li><li>Gallu defnyddio'r ardal awyr agored yn ddiogel, gan ddefnyddio Dojo i annog a gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol. Hefyd, gallu dod o hyd i ddeunyddiau naturiol i'w defnyddio'n rhan o'u gludwaith glas y dorlan.</li><li>Gallu defnyddio sgiliau echddygol manwl i ludo'r deunyddiau a ddewiswyd ar ludwaith glas y dorlan y plant.</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Medr o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:</u><ul><li>Archwilio ac arbrofi</li><li>Datblygu sgiliau llawdrin manwl</li></ul></td><td colspan="4"><u>Ystod o Faes Dysgu'r Cyfnod Sylfaen:</u><ul><li>Ymchwilio i amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored</li><li>Archwilio, ymchwilio a defnyddio ystod eang o symbyliadau ac adnoddau</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="8"><u>Cysylltiadau â Meysydd/Elfennau'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd:</u><ul><li>Gwrando ar farn a syniadau eraill ac ymateb iddynt</li><li>Iaith ddisgrifiadol</li><li>Ennyn dealltwriaeth o wybodaeth anghyfarwydd</li></ul></td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd:</td><td>I, Ll a Ch</td><td>DPaCh</td><td>DM</td><td>DS</td><td>GDB</td><td>DCorff</td><td>DC</td></tr>
<tr><td colspan="4"><u>Adnoddau:</u><ul><li>4 x papur A3.</li><li>Llun o las y dorlan</li><li>Glud PVA a 4 siswrn</li><li>2 bot glud</li><li>4 brws glud a siswrn</li><li>Ardal awyr agored ddiogel ac adnoddau naturiol (e.e. dail).</li><li>Ffeithiau allweddol am las y dorlan</li></ul></td><td colspan="4"><u>Gwahaniaethu: disgyblion MAT / ADY</u><br>Disgyblion MAT – Ar ôl creu'r gludwaith o las y dorlan, gallant roi eu gwybodaeth newydd mewn brawddegau.<br>'Mae glas y dorlan yn hela ac yn bwyta pysgod'.<br>Disgyblion ADY – Darparu deunyddiau addas i'r plant, wedi'u torri eisoes yn feintiau digonol.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Cynllun Manwl o'r Wers:**<br>Edrychwch ar y llun o las y dorlan. Holwch y plant a ydynt yn gwybod unrhyw beth am las y dorlan yn barod, gan eu hannog os oes angen, drwy eu hatgoffa o lyfr 'Geiriau Diflanedig' yr oeddem wedi edrych arno o'r blaen. Fel grŵp, trafodwch las y dorlan, gan ddisgrifio i'r plant sut olwg sydd arno, beth mae'n ei fwyta a ble mae'n byw. Wedyn, rhowch ffeithiau allweddol iddynt am las y dorlan, gan ofyn iddynt eu darllen i'r grŵp / mewn parau ac yna eu gludo o gwmpas ein llun o las y dorlan. Yna byddwn yn dechrau prif ran y gweithgaredd.<br>Gofynnwch i'r plant chwilio am ddeunyddiau addas am ludwaith glas y dorlan. Gall y plant ddefnyddio'r llun a ddarparwyd i gyfeirio at siâp / lliw. Rhoir unrhyw ddeunyddiau a gasglir mewn bwced (os yw'r tywydd yn wael, gallech fynd yn ôl dan do); fel arall eisteddwch wrth y bwrdd, gydag amlinelliad gwag o las y dorlan ar ychydig o bapur siwgr, glud PVA, siswrn a'r deunyddiau naturiol wedi'u cysylltu â phapur sidan lliw.<br>Gofynnwch i'r plant ddefnyddio'r deunyddiau hyn i greu gludwaith glas y dorlan, a'u hatgoffa y gallant ddefnyddio siswrn i'w torri i'w siâp a maint dymunol. Yn olaf, sicrhewch fod y plant yn deall drwy ddefnyddio cwestiynau allweddol fel "Pa liwiau sydd i'w cael ar las y dorlan?" a "pa fath o big sydd ganddo?" | |
| <u>Cysylltu â dysgu blaenorol plant:</u><br>Roedd y plant eisoes yn gyfarwydd â llyfr 'Geiriau Diflanedig', ar ôl ei ddefnyddio mewn wythnosau blaenorol i'w ddarllen i'r plant yn y gornel lyfrau. Siaradom mewn grwpiau am y lluniau ac eglurais y llyfr gan ddefnyddio iaith addas i blant. | |
| Hyd: 10 munud | <u>Cyflwyniad:</u><br>Dechreuwch y wers yn eistedd wrth fwrdd/mewn cylch a dangoswch i'r plant lun o las y dorlan. Gofynnwch i'r plant a ydyn nhw'n gwybod unrhyw beth am las y dorlan, gan eu hatgoffa o lyfr 'Geiriau Diflanedig' yr oeddem wedi'i weld o'r blaen. Dywedwch wrth y plant ychydig o ffeithiau allweddol am las y dorlan a gofyn iddynt eu gludo o gwmpas llun glas y dorlan. |
| Hyd: 25 munud | <u>Prif Weithgaredd:</u><br>Gofynnwch i'r plant ddefnyddio'r ardal awyr agored i ddod o hyd i ddeunyddiau naturiol i'w defnyddio'n rhan o'u gludwaith glas y dorlan. Ar ôl iddynt gasglu eu deunyddiau, gofynnwch i'r plant ddod â nhw at y bwrdd a'u gludo ar eu llun gwag o las y dorlan. |
| Hyd: 5 munud | <u>Sesiwn Lawn (sicrhau dealltwriaeth):</u><br>Ailadroddwch y cyflwyniad gan ofyn i'r plant a allan nhw gofio a rhannu gyda'r grŵp unrhyw ffeithiau am las y dorlan. Tynnwch ffotograffau ar yr iPad o'u glas y dorlan yn barod am weithgaredd wythnos nesaf, sef llyfrau stori. |
| <u>Asesiad:</u><br>Defnyddiwch gwestiynau allweddol i sicrhau bod y plant wedi deall.<br>Pa liwiau sydd i'w cael ar las y dorlan? Pa sŵn mae glas y dorlan yn ei wneud? Ble mae glas y dorlan yn byw? Beth mae glas y dorlan yn ei fwyta? | |








Female kingfishers are more colourful than males.
Kingfishers make loud screeching sounds.
Kingfishers have long beaks so that they don't scare the prey that it is trying to catch.
They live by lakes, canals and rivers.





## Defnyddio Technoleg Ddigidol yn yr Awyr Agored: A oes achos o blaid Technoleg Ddigidol/Amser Sgrin?

Mae llawer iawn o waith ymchwil ar gael sy'n awgrymu bod plant ifanc yn cael gormod o 'amser sgrin' a'i fod yn effeithio ar eu datblygiad. Canfu Pagani (2010) fod gweld mwy o sgriniau teledu ymhlith plant 2-4 oed yn oedi eu datblygiad a bod nifer o effeithiau corfforol ar oedolion yn ogystal â phlant pan fyddant yn cael mwyfwy o amser ar dechnoleg sgrin.

> Mae oedran plant pan fyddant yn dechrau gweld sgriniau a nifer yr oriau a wylir bob dydd yn cael eu cysylltu mwyfwy â chanlyniadau meddygol a newidiadau ffisiolegol negyddol ... a mwy o oriau'r dydd yn cael eu cysylltu â mwy o debygolrwydd y bydd effeithiau negyddol yn ymddangos a hynny'n aml flynyddoedd yn ddiweddarach yn y plentyn (Sigman, 2010, t.94).

Bathodd Louv yr ymadrodd 'Anhwylder Diffyg Natur' a dengys yr ymchwil (2009) yn glir fod plant yn dioddef o nifer o effeithiau negyddol yn gorfforol ac yn feddyliol yn ogystal â sgiliau cymdeithasol sydd heb ddatblygu'n ddigonol. Mae'r effeithiau hyn, sy'n amlwg yn gynnar, yn cael effeithiau parhaol ar ffurf iechyd meddwl ac iselder yn ddiweddarach mewn oes. Felly, mewn gwrthgyferbyniad â'r ffordd electronig hon o ddysgu ac addysgu, sy'n eisteddog i raddau helaeth, nid yn unig y mae angen i blant symud a bod yn yr awyr agored, ond mae angen iddynt gysylltu â natur. "A ninnau yng nghanol technoleg electronig, dyhëwn am fyd natur" (Louv, 2009, t. 60). Rydym yn ei gynhyrchu'n synthetig mewn gerddi, canolfannau siopa, parcdiroedd ac mewn llu o adeiladau gan gynnwys ystafelloedd dosbarth y blynyddoedd cynnar i roi ymdeimlad o 'les' inni.


Fodd bynnag, mae angen deall natur newidiol defnyddio technoleg ddigidol a'r hyn a olygwn wrth 'amser sgrin'. Gall amddifadu plant yn llwyr o'r amrywiaeth o gyfryngau digidol gael effeithiau negyddol ac mae'r rheini sy'n hyrwyddo cyflwyno technoleg sgrin i blant ifanc yn dadlau mai ansawdd yr hyn a wêl y plant ar y sgrin sy'n hollbwysig; os yw'r amser sgrin yn 'addysgiadol' ac yn 'briodol i oedran' mae manteision gwybyddol a deallusol (Sigman, 2010). Mae chwarae digidol yn offeryn felly y gellir ei weld yn ychwanegu at chwarae traddodiadol ac mae Verenikina *et al* (2016) yn awgrymu y gall fod yn gyfle i blant archwilio amgylcheddau mewn ffyrdd dychmygus, lle mae chwarae dychymyg ar ei orau pan fydd plant yn cymryd rhan mewn grŵp. Cefnogir hyn gan Luckin, Connolly, Plowman ac Airey (2003), a astudiodd y defnydd o deganau clyfar gan blant rhwng pedair ac wyth oed a chanfod fod rhyngweithiadau cymdeithasol yn cynyddu'n sylweddol, sy'n gwrthddweud yn ddymunol y gred a awgrymir fod technoleg yn gallu arwain at arwahanrwydd cymdeithasol (Louv, 2009).

Mae'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol yng Nghymru (LlC 2016) yn mynnu bod pob plentyn yn gweithio drwy'r lefelau priodol o sgiliau digidol wrth iddynt wneud cynnydd drwy'r continwwm dysgu, gan olygu y gellid gadael llai o blant ar ôl wrth inni baratoi at brofiadau digidol yn yr

21ain ganrif. Golyga hyn y bydd pob plenytn yng Nghymru'n cael at dechnoleg ddigidol drwy gyfryngau sgrin amrywiol o 3 oed. Hefyd, gall amddifadu plant yn llwyr o'r amrywiaeth o gyfryngau digidol gael effeithiau negyddol, felly gellid awgrymu bod eu hamddifadu o dechnoleg ddigidol yn rhoi plant dan anfantais ddatblygiadol ac addysgol ac os na chaiff plant y cyfle i 'ymgyfarwyddo' â thechnoleg sgrin y gallant rywsut fod yn llai hyderus yn ogystal ag anfedrus yn ei defnyddio.

## Amcanion allweddol y Fframwaith Cymhwysedd Digidol:

1. Dinasyddiaeth – sy'n cynnwys:
   a. Hunaniaeth, delwedd ac enw da
   b. Iechyd a llesiant
   c. Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth
   d. Ymddygiad ar-lein a seiber-fwlio.
2. Rhyngweithio a chydweithio – sy'n cynnwys:
   a. Cyfathrebu
   b. Cydweithio
   c. Storio a rhannu
3. Cynhyrchu – sy'n cynnwys:
   a. Cynllunio, cyrchu a chwilio
   b. Creu
   c. Gwerthuso a gwella
4. Data a meddwl cyfrifiadurol – sy'n cynnwys:
   a. Datrys problemau a modelu
   b. Llythrennedd gwybodaeth a data




Pwysig felly yw ystyried sut mae technolegau digidol yn yr 21ain ganrif yn gallu coleddu addysgu yn yr awyr agored. Er ystyriwyd ers amser maith fod y ddau fyd hyn yn aml yn cyd-daro, cafwyd arfer calonogol gyda'r myfyrwyr Blwyddyn 2 yn ystod y prosiect hwn, drwy ddefnyddio camera'r iPad ac ap SEESAW, yn ogystal â'm harferion personol fy hun, lle mae arsylwadau wedi datgelu bod defnyddio technoleg mewn ffyrdd **priodol** yn gallu 'ailgysylltu' plant ac oedolion â'u hamgylchedd awyr agored mewn gwirionedd, gan wneud iddynt 'greu' eu gwybodaeth eu hunain am natur a'r tirweddau byw, nid yn unig yn 'ddefnyddwyr' gwybodaeth ddigidol (Belk, 2013). Yn aml mae angen paradeim newydd a thrwy fy ymchwil fy hun a'm myfyrdodau am ymarfer, bu hon yn siwrnai i brocio'r meddwl. Felly dylai cynnig y Cwricwlwm Newydd i Gymru (LlC, Ebrill 2019), sy'n cynnig ymagwedd fwy cyfannol a blaengar at ddysgu ac addysgu, groesawu trawsbeillio meysydd dysgu a phrofiad yn ogystal ag addysgeg ac arferion. Felly efallai y dylid croesawu'r cyfle hwn, nid ei ofni.

## Cyfeiriadau:


Belk, R. (2013) You are what you can access: Sharing and collaborative consumption online. *Journal of Business Research* 67, (8) tt1595-1066.

Bilton, H. a Waters, J. (2016) 'Why Take Young Children Outside? A Critical Consideration of the Professed Aims for Outdoor Learning in the Early Years by Teachers from England and Wales', *Social Sciences,* 6(1) tt.1-16 [Ar-lein]. Ar gael yn: https://doaj.org/article/761cbc576304456181804bbc827f8c4e (Cyrchwyd 6 Ionawr 2019)

Dillon et al (2005) *Engaging and Learning with the Outdoors*: *the final report of the outdoor classroom in a rural context action research project.* Slough: National Foundation for Educational Research.

Holland, C. (2009) *I Love My World: The Playful, Hands-on, Nature Connection Guidebook*. Otterton: Wholeland Press

Lewis, A. a Poole, R. (2018) 'Into the Great Outdoors: Opportunities and Experiences', yn Thomas, A. a Mcinnes, K. (gol.) *Teaching Early Years Theory and Practice*. Llundain: SAGE, tt.156-177.

Louv, R. (2009). *Last Child in the Woods; Saving our Children from nature deficit disorder*. 2il argrafffiad. Llundain: Atlantic Books.

Luckin, R., Connolly, D., Plowman, L. ac Airey, S. (2003). Children's interactions with interactive toy technology. *Journal of Computer Assisted Learning*, 19, (2) tt.165-176.

Macfarlane, R., Morris, J., a Hopwood, M. (2019) *Geiriau Diflanedig*. Graffeg.

Pagani, L.S. (2010) Prospective associations between early childhood television exposure and academic, psychosocial and physical wellbeing by middle childhood. *Archives of Paediatrics and Adolescent Medicine*, 164 (5) tt.425 -431

Renick, S. (2009) "*Exploring Early Childhood Teachers' Beliefs and Practices about Preschool Outdoor Play: A Case Study*." Traethawd hir PhD, The Texas Woman's University.

Sigman, A. (2010) 'The impact of Screen Media on Children: A Eurovision of Parliament'. *Health Education Lecture given to the Quality of Childhood group in the European Parliament*. Awst 2010. Senedd Ewrop.

Tovey, H. (2007) *Playing outdoors: Spaces and places, Risk and Challenge.* Maidenhead: Gwasg y Brifysgol Agored.

Verenikina, I., Kervin, L., Rivera, M. C. a Lidbetter, A. (2016) Digital play: Exploring young children's perspectives on applications designed for pre-schoolers. *Global Studies of Childhood*, Cyf. 6(4) tt.388–399

Cymru. Yr Adran Addysg a Sgiliau (2015) *Cwricwlwm i Gymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.* [Ar-lein]. Ar gael yn:https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/foundation-phase-framework-revised-2015.pdf (Cyrchwyd: 02 Ionawr 2019)

Cymru. Llywodraeth Cymru (2009) *Y Cyfnod Sylfaen: Llawlyfr Dysgu yn yr Awyr Agored.* Caerdydd: LlCC Cymru.

Cymru. Llywodraeth Cymru (2013) *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Caerdydd:* LlCC.

Cymru. Llywodraeth Cymru (2015) *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.* Caerdydd: LlCC

Cymru. Llywodraeth Cymru (LlC) (2016). *Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol* (DCF). Caerdydd: Hawlfraint y goron.

Cymru. Llywodraeth Cymru (2019) Cwricwlwm Newydd i Gymru. Caerdydd: Hawlfraint y goron

Hawlfraint © Prifysgol De Cymru, 2019. ISBN

– 978-1-909838-42-0

Crëwyd Pecyn Cymorth Addysgu Geiriau Diflanedig gan fyfyrwyr Prifysgol De Cymru ac fe'i golygwyd gan Pavla Boulton.
Prifysgol De Cymru, Usk Way, Casnewydd, De Cymru. NP20 2BP .
Cefnogwyd gwaith ei greu gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhad ac am ddim i ymarferwyr yn y DU, drwy wefannau partneriaid, lle mae adnoddau dysgu awyr agored ar gael i ymarferwyr yn y DU.

Pavla Boulton yw'r Arweinydd Cwrs ar gyfer y Radd mewn Addysg ac Ymarfer y Blynyddoedd Cynnar (gyda statws ymarferwr) yn PDC. Hi sy'n arwain ar y Modiwl Plant yn Dysgu drwy Dirweddau, mae hi'n Arweinydd Ysgol Goedwig Lefel 3 ac mae'n aelod o Banel Rhwydwaith Hyfforddiant Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru, sy'n rhan o Cyfoeth Naturiol Cymru.

Macfarlane, R., Morris, J. a Hopwood, M. (2019) *Geiriau Diflanedig*. Graffeg.
Mae delweddau Geiriau Diflanedig yn hawlfraint i Jackie Morris, 2017. Rhoddwyd caniatâd inni ddefnyddio'r delweddau yn y pecyn cymorth hwn. Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu delweddau.